

# Y STAMP

RHIFYN 4 • GWANWYN 2018

BETHAN SCOREY   CERI RHYS MATTHEWS   MORWEN BROSSHOT   SAM JONES  
LLIO MADDOCKS   GARETH EVANS JONES   BECCA VOELCKER   MIHANGEL MORGAN



Lora Gwyneth  
(tud. 23)



# Y STAMP

## RHIFYN 4 GWANWYN 2018

Hawlfraint © 2018 Y Stamp

Argraffwyd yn Nhalybont gan Y Lolfa

**Golygyddion** Grug Muse  
Llŷr Titus  
Miriam Elin Jones  
Iestyn Tyne

**Celf y Clawr** Bethan Scorey  
**Mewnosodiad** Cywion Cranogwen

**Dylunydd** Iestyn Tyne

Barn awduron unigol a gyhoeddir yn *Y Stamp*, ac nid o reidrydd rhai'r cylchgrawn a'i olygyddion.

### DIOLCH

I bawb a ddaeth i lansiad y trydydd rhifyn yn Abertawe; I CHI, ddarllenwyr annwyl; ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn.

<b>Golygyddol</b> - Iestyn Tyne .....	4
Cerdd - Morwen Brosschot .....	7
Stori Fer - Mihangel Morgan .....	9
<b>Cartrefi Cymru 2.0</b> - Ceri Rhys Matthews .....	11
<b>Y Labordy</b> - Llio Maddocks .....	15
Llên Meicro - Gareth Evans Jones .....	17
<b>Cyfweliad</b> - Becca Voelcker .....	18
<b>Ymateb i Gelf</b> - Mari Elen a Llŷr Titus .....	22
Celf - Lora Gwyneth .....	23
Cerddi - Iestyn Tyne .....	24
<b>AilBobi Jones</b> - Sam Jones .....	25
Llên Meicro - Holly Gierke .....	27
<b>Adolygiadau</b>	
<i>Am Newid</i> - Dana Edwards .....	28
<i>All Fours</i> - Nia Davies .....	28
<i>7 Llais</i> - Karen Owen .....	29
<i>2071</i> - Cwmni Pendraw .....	30
<i>Syllu ar Walia'</i> - Ffion Dafis .....	30
<i>Hen Bethau Anghofiedig</i> - Mihangel Morgan .....	31
<b>Adnabod yr Artist</b> - Bethan Scorey .....	32
<b>Y Stampwyr</b> .....	33

### Lluniau

Tud. 10 - **Colin** / Wikimedia Commons

Trwydded: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/legalcode>

Tud. 11 - **Alan Richards**

Trwydded: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/legalcode>

Tud. 26 (J.M.J) - **John Thomas**, c.1885 (Parth Cyhoeddus)

[ystamp.cymru](http://ystamp.cymru) // [@ystampus](https://www.instagram.com/ystampus) // [facebook.com/ystampus](https://www.facebook.com/ystampus)

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com)



# GOLYGYDDOL

## IESTYN TYNE



Llun: Sophie Ann Hughes

## MEINI PRAWF

### A'R BUSNAS GOLYGU 'MA

Y bore 'ma, wrth sgrolio yn ddiamcan braidd ar fy ffrwd Twitter, mi welais i drydariad tebyg i hwn:

Fy merch (11 mlwydd oed) newydd ddweud wrtha i ei bod yn gorfod defnyddio'r "meini prawf llwyddiant" wrth sgwennu stori yn waith cartref. Hyn wedi fy nigelonni'n llwyr. #jargon #addysg

A dyma finnau'n digalonni hefyd, braidd, a meddwl: tybed pwy ydi'r unigolyn hollwybodus hwn sydd bellach yn deddfu ar yr hyn sydd yn rhaid i blentyn unarddeg oed ei gynnwys mewn stori fer? Mi darodd o dant wnaeth fy atgoffa o rywbeth arall a ddarllenais i yn y dyddiau diwethaf:

Cymysg yw record Brwydr y Bandiau wedi bod dros y blynnyddoedd o ganfod llwyddiannau hirhoedlog. Am bob Chroma ac Y Ffug, mae yna Nebula a Siân Miriam. Gobaith enillwyr 2017, Alffa, fydd ymuno â'r categori cyntaf hwnnw, ac mae'r arwyddion cynnar yn ad-dawol ...

Daw'r paragraff o rifyn Mawrth 2018 cylchgrawn *Y Selar*. Mi ges i fy synnu braidd o weld y geiriau yma mewn print – nid mewn darn barn ond mewn cyflwyniad gan olygyddion *Y Selar* i gyfweiliad ag Alffa, enillwyr diweddaraf Brwydr y Bandiau Maes B.

Beth bynnag am Nebula, mae Siân Miriam ymhell o fod yn un o 'aflwyddiannau' Brwydr y Bandiau. Yr hyn sydd gan y golygyddion mewn golwg, mae'n debyg, ydi'r ffaith nad ydi hi wedi

hedleinio noson ym Maes B nac wedi ennill un o Wobrau'r Selar. Prawf cadarn yw hyn, wrth reswm, bod ei gyrfa greadigol wedi bod yn ffêl.

Y gwir amdani ydi bod Siân Miriam wedi canfod llwyddiant, a hwnnw'n un hirhoedlog, ond nad ydi'r llwyddiant hwnnw wedi digwydd trwy'r sianeli 'derbyniol' neu 'arferol' i enillwyr Brwydr y Bandiau. Mae hi wedi bod yn perfformio'n gyson yng Nghymru a Lloegr; yn gerddorol a thrwy gyfrwng barddoniaeth *spoken word*; mae hi'n un o 'grotesc ce-gog' Cywion Cranogwen ac yn athrawes berfformio; yn gyfarwyddwraig theatr ieuencid, ac yn hanner y ddeuawd gwerin-blŵs newydd, Tagaradr (ar y cyd hefo Caine Jones-Williams). Anghyfrifol a ffeithiol anghywir felly yw awgrymu nad ydi Siân Miriam wedi gwneud dim o werth yn sgîl ennill y wobr – a tydi hwn ddim y tro cyntaf i'r *Selar* gynnwys ei henw hi wrth sôn am enwau 'anghofiedig' Brwydr y Bandiau.

Yr awgrym arall yn y paragraff, wrth gwrs, ydi y bydd Alfa yn chwilio i ddilyn yn olion traed Chroma a'r Ffug yn hytrach na rhai Siân Miriam, fel petai un olyniaeth yn fwy anrhydeddus na'r llall.

Y broblem efo hyn i gyd ydi bod y safonau rhyfeddaf yn ymddangos. Safonau annelwig, anllafaredig ydi'r rhain, sydd yn golygu mai criw bychan o bobl biau'r dweud dros be yn union ydi llwyddiant. Mae hyn yr un fath yn union â'r sawl sy'n dweud fod stori fer un plentyn yn waeth neu'n wallus o'i gymharu â'r nesaf am nad ydi o efallai'n cydymffurfio yn union â fformiwla o reolau derbyniedig.

Mae o'n codi ym mhob man. Os ydi cyn-far-dd-ifanc-addawol, (**cyn-far-dd-ifanc-addawol** *eb/g*. ll. cyn-feirdd-ieuainc-addawol – enillydd Cadair yr Urdd / wedi cyhoeddi cyfrol cyn troi'n 25 / cawsai ddeg marc am delyneg unwaith ar y Talwrn) er enghraifft, heb gael ei din neu ei thin ar y pren yn y brifwyl erbyn eu deg ar hugain, mae cwestiynau'n codi am yr addewid a gollwyd – yr awen a chwythodd ei blwc. Hyn heb ystyried, efallai, nad ydi'r awydd i gystadlu yn y person hwnnw (dyn-dyn-dyyyn); nad ydi barddoniaeth eisteddfodol ar y cyfan yn adlewyrchiad o'r farddoniaeth sy'n boblogaidd, hyd yn oed; a llu o resymau eraill posib (Ar fater cystadlu, ewch yn ôl i Rifyn 3 [Gaeaf 2017] a darllenwch ddarn golygyddol Grug Muse, da chi).

Ym mhob rhifyn, mae'r Stamp wedi cynnwys gwaith gan o leiaf un person sydd erioed wedi cyhoeddi darn o waith creadigol mewn print o'r blaen. Gan amlaf, mater o ddiffyg hyder am ba bynnag reswm ydi'r ffaith nad ydyn nhw wedi cyhoeddi. Mae'r wefr o dderbyn gwaith gan rywun nad ydyn nhw erioed wedi cyhoeddi o'r blaen yn anhygoel, ond mae yna ddyletswydd a chyfrifoldeb yn dŵad law yn llaw ag o.

Mae gen i, fel pawb, fy chwaeth ac fy niléit personol pan mae hi'n dod at lenyddiaeth, celf, cerddoriaeth, ac yn y blaen. Mae gen i'r pethau hynny sy'n effeithio arna i yn fwy nac eraill; eu neges yn fy nharo i'n galetach – pethau sy'n haws uniaethu â nhw oherwydd fy sefyll-

fa bersonol, efallai. Mae 'na bethau y byddwn i, wrth eu *hadolygu*, yn eitha llawdrwm arnyn nhw – a hynny am mai darn barn ydi adolygiad bob amser.

Ond, mi rydw i'n gwerthfawrogi pob darn creadigol o unrhyw fath am beth ydi o yn fwy sylfaenol; sef darn o waith y mae rhywun wedi llafurio ac ymlafnio drosto; darn o waith ysbrydoledig, â meddwl neu syniad y tu ôl iddo, sydd yn llwyr haeddu cael llwyfan teg a theilwng i bobl gael ffurfio barn amdano drostynt eu hunain.

Problem yn y bydoedd celfyddydol Cymraeg ydi bod chwaeth yn aml yn troi'n sensoriaeth. Hynny ydi, bod yna bobl mewn sefyllfaoedd pwerus; yn olygyddion, yn guradwyr, ac ati; sydd yn penderfynu drostynt eu hunain beth ydi'r math o ddeunydd y bydd y gynulleidfa yn ei werthfawrogi. Ac mae hynny'n beth peryg a niweidiol. Mae o hefyd yn golygu mai'r arbrofol a'r *avant garde* – sef yr union bethau y dylid bod yn eu hannog – sydd yn disgyn trwy'r rhwyd dro ar ôl tro i wneud lle ar gyfer yr hyn a ystyrir yn 'saff' ac yn 'safonol'.

Hoffwn i feddwl mai golygyddion 'ysgafn' ydi golygyddion Y Stamp. Mi ddarllenais ysgrif ddifyr ar y we yn ddiweddar gan y golygydd profiadol o'r Unol Daliaethau, Kirsten Janene-Nelson, a oedd yn delio â golygu fel pwnc athronyddol. Fel hyn yr oedd hi'n rhoi'r syniad o olygu 'ysgafn':

*When asked to do a light edit, I am grammar police, but I wear dainty boots. I tiptoe through the rows of sentences, and will sometimes suggest edits, but I yank only the weeds. (1)*

Y math yma o olygu sensitif sydd yn sicrhau bod llais personol yr awdur neu'r sawl sy'n creu yn cael ei bar-chu ac yn aros yn un darn. Y math yma o olygu sydd hefyd yn caniatáu yn y pen draw i ni gyhoeddi darn creadigol gan bawb sydd yn danfon gwaith atom.

Trwy osod gormod o reolau a meini prawf wrth y gwraidd mae rhywun yn gwneud y gwrthwyneb llwyr i hynny.

O ddweud wrth blant fod yna ffordd 'gywir' o ysgrifennu straeon byrion, yna mi fydd y plant hynny sy'n sgwennu straeon yn 'anghywir' yn colli ffydd, amynedd a hyder ac yn rhoi'r gorau iddi. Yn yr un modd, o ddewis peidio â chyhoeddi darn o waith creadigol am nad ydi o'n apelio at eu chwaeth bersonol, mi fyddai golygydd yn gwneud cam â'r person sydd wedi bod wrthi'n creu yn ogystal â'r person allan yn fan'na sydd â'r potensial i ymateb – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol – i'r darn hwnnw o waith.

Dathlu amrywiaeth mewn llais, arddull, llun, a sain; a dathlu amrywiaeth y bobl sydd wrthi'n creu ydi craidd cenadwri'r cylchgrawn hwn, ond yn y byd sydd ohoni dylai hynny fod yn genadwri i bob cyhoeddiad, pob sefydliad, a phob unigolyn. I wneud hynny, mae gofyn i'r bobl sy'n rhyddhau y pethau hyn i'r byd chwalu eu muriau amddiffynnol yn deilchion – bod yn barod i weld cywyddau gofyn caeth ochr yn ochr â cherddi torrydd; bandiau pop gofodol yn rhannu llwyfan â bandiau gwerin tradodiadol; tirluniau olew yn rhannu'r un waliau â gwaith celf newydd, arbrofol – oherwydd mae'r pethau yma i gyd yn bwydo oddi ar ei gilydd, ac mi gaiff y gynulleidfa farnu wedyn a fu llwyddiant ynteu methiant.

Yn sicr, ddylai llwyddiant creadigol ddim cael ei fesur gan faint o Wobrau'r Selar 'sgen ti, na chwaith gan sawl un o'r meini prawf honedig yr wyt ti'n llwyddo i dicio'r bocws wrth eu hymyl.

**Aberystwyth  
Chwefror 2018**

(1) Kirsten Janene-Nelson, *Editing Philosophy & Other Thoughts* o [the-editrice.com/philosophy.html](http://the-editrice.com/philosophy.html)

## 👉 ARTISTIAID! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

Rydym yn chwilio am artistiaid i arddangos eu gwaith ar gloriau'r dyfodol – cysylltwch os oes gennych ddiddordeb!



**Georgia O'Keeffe**

Llun: Alfred Stieglitz (1918)

# MORWEN BROSSCHOT

## GEORGIA

'Mae blodyn yn gymharol  
fychan ...'

Ond mi welaist ti ei  
ogoniant.

'... mewn ffordd does neb yn  
gweld ... does gennym ni  
ddim amser ...'

Daethost ti i adnabod blodau  
dros amser  
fel adnabod ffrind.

Tynnaist hwy o'u cyd-destun  
naturiol a  
dywedaist

'... mi beintiaf yr hyn yr ydw  
i yn ei weld ...'

a rhoddaist iddynt  
arwyddocad  
y tu hwnt i'r cyffredin.

Lili'r gors, gelaets,  
pabi'r dwyrain, rhosyn gwyn  
a Jac yn y pulpod.

A dywedaist,  
'... mi beintiaf hwy yn  
fawr ...'

Mentraist,  
Dilynaist dy weledigaeth,  
Ymdreiddiaist  
yn löyn byw  
neu wenynen  
i berfedd blodau.

'... fe'u synnaf  
nes iddynt gymryd yr amser  
i edrych ...'

Gwelaist y tu hwnt  
i'r breuder;  
ymhellach na'r  
arwynebol;  
yn ddyfnach na'r  
eiddilwch.

Peintiaist y cadernid corfforol  
yn nyffrynnoedd y  
petalau.





Peintiaist y gwytnwch  
yng ngheinder  
eu torchau.

Peintiaist ar dy ganfas  
manweog  
ogofâu'r ofariau,

a chodai brigerau o  
blygiadau dy flodau  
fel nendyrrau  
New York.

A dywedaist

'... mi wnaif i hyd yn oed  
bobl brysur New York  
gymryd yr amser  
a gweld  
yr hyn a wela i  
mewn blodau.'





# MIHANGEL MORGAN

## CYFRINAIR

Fel y bydd gwenoliaid yn gwybod pryd yn union i ddychwelyd i'n parthau ni; fel mae'r eog yn synhwyro ei bod yn briodol nofio yn ôl i'w hen ddyfroedd; fel y mae'r eirlisiau yn deall yn gwmws pryd i wthio'u trwynau trwy'r pridd tywyll oer, gan ymateb i ryw reddf ddirgel anhysbys; bob blwyddyn fe ddeuai neges ar gyfrifiadur Steffan gan ei rybuddio yn y termau mwyaf bygythiol o arswydus ei bod yn bryd iddo newid ei gyfrinair. A phan welai'r neges fe gâi Steffan ei ddychryn (Onid dyna amcan y geiriad?). Wrth reswm, fe fyddai'r rhybudd yn ymddangos yr un adeg bob blwyddyn, ond creadur mor anhrefnus oedd Steffan fel nad oedd ef wedi cofnodi'r union ddyddiad, ac ni ddeuai'r amser iddo drwy ryw gymhelliad cyfriniol fel yr ysgogid y wennol, yr eog a'r eirllys. Felly, bob tro yr ymddangosai'r e-bost hwn roedd e'n sioc ac yn annisgwyl ac nid oedd Steffan byth yn barod amdano. Mor frawychus oedd iaith y llythyr fe gâi Steffan yr argraff y byddai'i fywyd yn chwalu'n deilchion am ei glustiau oni bai iddo newid y cyfrinair yn ddi-oed.

Haws dweud na gwneud. On'd oedd ganddo ddyletswyddau eraill? E-byst eraill i'w hateb, cyfarfodydd, darlithiau, seminarau, traethodau i'w marcio, cwestiynau arholiadau i'w gosod? Y bore hwnnw roedd e ar ganol diwygio llyfryddiaeth un o'i fodiwlau ac roedd yn rhaid i'r ysgrifenyddes gael y fersiwn newydd cyn y penwythnos. Ond pe bai'n gohirio newid ei gyfrinair fe fyddai'i fynediad i'w gyfrifiadur yn cael ei gloi ac wedyn ni châi weithio ar ddim un o'i ddogfennau. Yn wahanol i bob un o'i gydweithwyr (callach) ni weithiai Steffan ar gyfrifiadur gartre ac felly unig leoliad ei holl ddogfennau oedd hwn yn ei swyddfa yn y brifysgol. Doedd dim amdani ond mynd ati ar unwaith i ddyfeisio cyfrinair newydd ac anghofio'r hen un annwyl a ddaethai mor gyfarwydd iddo – wel, yn y diwedd – wedi'r cyfan, cawsai drafferth ofnadwy i lunio hwnnw llynedd.

Yn ôl cyfarwyddiadau'r rhybudd larymllyd roedd yn rhaid i'r cyfrinair gynnwys wyth o symbolau o leiaf ond dim mwy na deuddeg. Rhaid iddo hefyd gynnwys priflythrennau, llythrennau

bach, rhifau ac arwyddion eraill, er enghraifft \* neu @. Ond nid oedd y cyfrinair i fod ei gael ei seilio ar unrhyw air cyfarwydd. Gan ei fod yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg tybiodd Steffan y byddai hyn yn rhydd, dim ond iddo feddwl am air Cymraeg anghyffredin a chyfnwid ambell lythyren am rifnod neu symbol. Daeth y gair 'Gwrnudd' i'w ben am ryw reswm – hen air am borffor a welsai yng ngwaith y gogynfeirdd. Yn lle'r G rhoes y a gwnâi 'w' yn iawn am yr ail lythyren, √ yn lle 'r', ac yn y blaen, nes iddo gyfnwid y rhan fwyaf o'r llythrennau am symbolau eraill; ond fe fyddai ef yn ei gofio'n rhydd iawn fel 'Gwrnudd', wrth gwrs. Bwydodd y llythrennau a'r rhifau a'r symbolau i'r cyfrifiadur. Yn syth, cafodd arwydd yn dweud, 'Annilyd. Seiliedig ar air Cymraeg.' Ni allai Steffan gredu bod gair mor anarferol â 'Gwrnudd' yn cael ei adnabod mor sydyn ym mherfeddion celloedd ymennydd system cyfrifiadurol y brifysgol – a honno mor wrth-Gymraeg, fel rheol. Sut yn y byd oedd modd i neb gonsurio gair hollol newydd na fyddai neb arall yn y brifysgol yn ei ddyfalu? Fe allai'r system ei hun gynnig cyfrineiriau dyfeisiedig pe gofynnid iddo ond ofnai Steffan na fyddai ef yn cofio'u cyfrineiriau gwneuthuriedig nhw; gwell ganddo lunio'i air ei hun. Ac roedd e'n benderfynol o gael un yn 'seiliedig ar air Cymraeg' na fyddai'r system yn ei adnabod.

Gweithiodd Steffan arno am yr awr nesa ac ar ôl cynigion aflwyddiannus aneirif dyma fe yn meddwl am ffurf ferfol o'r trydydd unigol i hen air anghyffredin iawn. Yna fe dorodd hwnnw yn ei ganol a rhoi'r ail hanner o flaen yr hanner cyntaf, ac wedyn, wedi iddo gyfnwid rhifau a symbolau am llythrennau fe fwydodd Steffan y bathiad newydd i mewn i'r cyfrifiadur. Ac O! Gorfoledded y ddaear! Fe dderbyniwyd y gair!

O fewn hanner awr roedd y system yn gweithio eto gyda'r cyfrinair newydd. Nawr, roedd Steffan yn benderfynol o gadw'r gair ar ei gof ac ni fyddai'n ei 'sgrifennu na'i gofnodi yn unman. Felly, wrth iddo fynd o gwmpas ei ddyletswyddau weddill y bore hwnnw

fe ailadroddai'r gair cyfrinachol, neu – a bod yn fanwl gywir – y cyfuniad od o rifau ac o symbolau a llythrennau a seiliwyd ar air Cymraeg. Adroddai ef drosodd a throsodd yn ei feddwl.

Llafarganai ef yn isel dan ei wynt drwy'r amser. Suai'r gair yng nghefn ei feddwl hyd yn oed wrth iddo gwrdd ag Eirllys Humphries i drafod ei gwaith ymchwil ar gyfer MPhil ar 'Chwiroedd mewn Llenyddiaeth Gymraeg, 1950-2010'. Yn ystod y tiwtorial rhoes Steffan argraff dda o wrando arni, â'i ben yn gogwyddo i'r naill ochr ac yn nodio o bryd i'w gilydd mewn cytundeb â hi ac arlliw o wên yn chwarae ar ei wefusau a ddynodai 'didorol iawn'. Ond drwy'i feddwl drwy'r awr rholiai'r cyfrinair a bron dim un syniad arall. Gallai weld y llythrennau a'r rhifau yn fflachio drosodd a throsodd. A phe bai Eirllys Humphries wedi holi un cwestiwn ynghylch yr hyn roedd hi wedi'i ddweud wrtho fe fyddai Steffan wedi bod mewn penbleth.

Amser coffi gyda'i gydweithwyr yn stafell y staff aeth ef i eistedd mewn cornel gyda'i gwpan a'i fisgeden. Daliai i actio fel petai'n gwrandao ac yn ymuno ymhob sgwrs gan gynnig ambell 'ie, ie' pan synhwyrai fod hynny yn briodol a chwarddai pan glywai eraill yn chwerthin. Ac yn wir, byddai'i gydweithwyr wedi tyngu llw iddo fod yn wrandawr astud, mor llwyr oedd e wedi meistrol'i'r grefft o gymryd rhan mewn ymgom heb iddo ymuno o gwbl, mewn gwirionedd. Ond doedd e ddim wedi clywed gair. Yr unig air yn ei ben oedd y cyfrinair newydd.

Wedyn fe draddododd ei ddarlith ar T.H.Parry-Williams gan roi sylw arbennig i 'Y Ddinas'. Ond gan ei fod wedi cyflwyno'r un deunydd bob blwyddyn ers deunaw mlynedd bron na allai adrodd y cyfan er ei gof heb orfod edrych ar ei hen nodiadau melyn yr un waith. Drwy'r holl ddarlith roedd y cyfrinair yn dal i droi yn ei feddwl.

Ac felly y bu hi weddill y dydd wrth ei waith, ac yna yn nes ymlaen pan aeth Steffan adre, ac wrth iddo baratoi bwyd ac ymlacio o flaen y teledu. Fe ddaliai'r llythrennau a'r rhifau i chwyrlio dwmbwl dambal o flaen llygad ei feddwl. Yn wir, prin y gallai

ganolbwyntio ar ddim a wnâi ac ni allai gofio yr un rhaglen na ffilm roedd e wedi'u gwyllo y noson honno.

Afraid dweud fod y cyfrinair newydd ar gof a chadw yn sicr ganddo erbyn hyn ac roedd Steffan yn ffyddiog na fyddai'n ei anghofio eto. Serch hynny ni allai gael y gair i roi'r gorau i droi yn ei ben. Roedd e yno nawr fel hen chwilen na allai rhoi llonydd iddo. Ble bynnag yr âi a beth bynnag a wnâi a ble bynnag yr edrychai ni allai weld dim ond yr hen air yna oedd yn prysur droi yn boendod iddo, fel cân neu ddarn o gerddoriaeth sydd yn dal i chwarae, fel petai, ar ôl un gwrandawriad, yn y clustiau. Roedd yn hen bryd iddo glirio'i ben am noson a meddwl am rywbeth arall.

Aeth i'w wely gan dybio y byddai cwsig a breuddwydion yn disodli'r cyfrinair o fewn dim o dro. Ond nid felly y bu hi.

Ymddangosodd y cyfrinair ar lun peth swmpus ac yntau, Steffan, yn gorfod ei gario. A pheth trwm oedd e hefyd; yn bwn anhydrin, onglog, metalig. Yn wir, roedd hi'n amhosibl gafael ynddo heb anafu dwylo. Serch hynny, gafael ynddo a'i gario oedd rhaid. Gyda chryn drafferth a rhwng ei ysgwyddo a'i lusgo fe symudodd Steffan ei faich fesul troedfedd i ben clogwyn uchel a'i daflu â'i holl nerth oddi yno i'r dyfnderoedd islaw. Troes gyda rhyddhad i fynd tuag adre. Ond yno, wedi iddo droi, yn ei wynebu unwaith yn rhagor roedd y cyfrinair. Yn fawr ac yn blaen ac yn ddiymwad o hyll.

Dihunodd Steffan yn anghyffredin o fore. Ni chawsai'i adnewyddu gan gwsg o gwbl. I'r gwrthwyneb — teimlai'n flinedig o hyd ac yn flin ac yn ddigychwyn. Ac yn dal i ailadrodd ohono'i hun o hyd oedd

symbolau a rhifau a llythrennau'r cyfrinair. Ni allai Steffan mo'i atal. Roedd gan y gair ei fywyd ei hun, fel petai, ac roedd e wedi dewis dod i fyw ynddo ef, fel rhyw greadur o baraseit oedd yn bwydo arno ef, Steffan, gan sugno'i egni a llarpio pob mwyniant a diddanwch o'i einioes. Teimlai fod y creadur hwn yn tyfu ac yn cynyddu mewn nerth a maintoli. Ofnai Steffan y byddai'n dod yn weladaw y bobl eraill ac wedyn y byddai pob un yn gwybod ei gyfrinair, ac y datgelid holl gyfrinachau a dirgelion ei fywyd personol.

Y bore hwnnw fe aeth Steffan i'w waith yn ôl ei arfer — y cyfrinair yn ei erlid yr holl ffordd wrth iddo yrru i'r brifysgol — a phan gyrrhaeddodd ei stafell ar y pedwerydd llawr, y peth cyntaf a wnâi, fel rheol, fyddai agor ei gyfrifiadur er mwyn darllen ei e-byst. Ond y tro hwn eisteddodd o flaen y sgrîn yn gyndyn i daro'r allwedd i fwydo'r cyfrinair bondigrybwyll i mewn. Oedd ac oedd. Gofidiai y byddai rhywbeth ofnadwy yn digwydd. Rhywbeth trychinebus a dychrynlyd, ond nid oedd ganddo amcan beth na phwy a gâi eu heffeithio.

Yna, ymgalliodd. Onid efe oedd wedi dyfeisio'r gair yn y lle cyntaf? Do, fe'i seiliwyd ar air Cymraeg ond efe oedd creawdwr y peth newydd hwn a chanddo ef oedd y ffrainc o'i reoli, ei newid neu'i ddiddymu hyd yn oed, pe dymunai. Wedi'r cyfan, dim ond gair ffug oedd e, nid gair go iawn mwyach, ond cyfuniad o lythrennau ac o rifau diystyr. Nonsens. Dyna holl ddiben y cyfrineiriau hyn, nad oedden nhw'n golygu dim, doedden nhw ddim i fod i feddwl dim i neb, fel na allai neb ddyfalu gair cyfrinachol neb arall.

Eto i gyd, ers iddo lunio'r gair


hwn on'd oedd e wedi magu'i ystyr ei hun ac wedi tyfu'n swynair? A nawr roedd rhywbeth halogedig yn ei gylch. Tyfasai yn ysgymunbeth, yn hunan-sibolet. Beth petai efe, meddyliai Steffan, drwy ryw ryfedd gyd-ddigwyddiad wedi taro ar ryw air hud anfad, anghofiedig a feddai ar rym a allai gonsurio cythreuliaid?

Ymbwyllodd eto. Rwtsh, meddai eto wrtho'i hun, rwtsh oedd y gair yn wir. A chyda hynny fe drawodd yr allwedd yn ôl trefn y cyfrinair.

Sbonciodd y sgrîn yn fyw. Dim cythreuliaid. Dim angenfilod metalig onglog. Yn sydyn roedd Steffan yn ateb e-byst, yn delio gydag ymholiadau myfyrwyr ac yn dileu negeseuon diwerth.

Ac yna fe ddaeth cnoc wrth y drws. Arhosodd Steffan cyn dweud 'dewch i mewn' yn ôl ei arfer. Fe ddaeth cnoc arall, caletach. Ond ddywedodd Steffan ddim. Roedd e'n erfyn ar y cnocydd i ddweud rhywbeth fel 'Hylo?' fel y byddai person o gig a gwaed yn gwneud — person normal. Yna, fe ddaeth cnoc arall ac un arall, ac yna cyfres o guriadau taerach, un ar ôl y llall. Ond ni ynganodd y cnocydd air. On'd oedd hynny yn annaturiol? Byddai cydweithiwr neu fyfyrwr neu borthor wedi galw ei enw; wedi gofyn os oedd e yno; wedi gofyn a oedd popeth yn iawn. Ac o fethu cael ateb byddai rhywun fel arfer yn rhoi'r gorau iddi ac yn mynd i ffwrdd. Ond rhywsut gwyddai'r cnocydd hwn, heb ofyn, ei fod ef, Steffan, yno, yn ei stafell. Gwyddai Steffan felly pwy, neu yn hytrach beth, oedd wrth y drws.

Pan glywodd y cyfrinair yn ei lefaru'i hun aeth Steffan at ei ffenestr ac fe neidiodd.



# CARTREFI CYMRU 2.0

## CERI RHYS MATTHEWS

Morris Castle (Craig Trewyddfa)  
Llun: Alan Richards

Ym 1896 cyhoeddwyd un o gyfrolau teithio mwyaf dylanwadol yr iaith Gymraeg, sef *Cartrefi Cymru*. Cyfrol o ysgrifau taith gan O.M. Edwards wrth iddo grwydro rhai o dai a chartrefi pwysig Cymru oedd hi, o Ddolwar Fechan i'r Lasynys. Ond nid disgrifio'r hyn a welai wrth siwrnea yn unig oedd O.M., eithr creu Cymru o'r deunyddiau crai a ganfyddodd ar ei amryfal deithiau. Cymru wledig, gapelgar o werinwyr diwylliedig oedd hi, antithesis i'r bröydd diwydiannol â'u tân a'u brwmstan.

Dros ganrif yn ddiweddarach, dyma ni yn mynd ati i greu arolwg arall o Gymru, gan unioni'r cam a wnaed i'r bröydd diwydiannol a dinesig gan O.M. Ym mhob rhifyn, byddwn yn gyrru awdur neu lenor i fynd i grwydro dinasoedd a bröydd diwydiannol Cymru i weld be welan nhw, ac i adrodd yn ôl, mewn arbrawf seico-ddaearyddol fawr.

Ar gyfer ail ran y gyfres hon, bu'r **Stamp** am dro i ardal Abertawe, ac i ben Craig Trewyddfa hefo **Ceri Rhys Matthews**; artist, cerddor, athro, cynhyrhydd; a brodor o Dreboeth. Ar Graig Trewyddfa mae Morris Castle, adeilad a godwyd yn y ddeunawfed ganrif gan Syr John Morris fel lloches i weithwyr y diwydiant copr, ac oddi yno gellir gweld yr ardal gyfan islaw. Buom yn trafod geoleg, alawon a chopr, yn ogystal â hanes a pherthynas Ceri â dinas hynod Abertawe. Rhai pytiau amrwd yw'r rhain o'r cyfoeth o sgysiau a myfyrdodau a gafwyd.

Alaw - 'Craig Trewyddfa'

<https://youtu.be/DDFAXEKcft4>



Morris Castle > Tywodfaen > Calchfaen

**Dim fi sy'n sgrifennu'r miwsig ma.** Ma'r miwsig ma'n bodoli, ond na'i gyd fi'n neud yw crafu'r wyneb [tapio'r garreg] Hwn yw'r sandstone – wy'n gyfarwydd â hwn – hwn yw'r pridd wy'n cerdded arno. Ma rhywun di codi fe, a ma clwm fan hyn wedi 'ny – limestone. A ma bois drwg wedi bod yn neud hwn (y graffiti); ma hen aelwyd fan hyn. Hynny yw, ti'n edrych yn

ddwfnach ar rwbeth, a ti'n gweld geology, a gwaith dynion, a ti'n gweld adfail, a dim ghosts hen bobl ond ... ma fe gyd ma; ma fe'n ddiamheuol, yma. A fel yn yr alawon, wy'n trio mynd tu hwnt i jyst plan yr adeilad ma; mae'n llyfr hanes tmod. Edrych, ma'r cwâr ddath y garreg ohono; y twll na, reit wrth y building ma. Na beth yw darllen, tmod. Edrych ar y creigie – na

beth yw hwn. So, ie, na beth wy'n neud gyda'r gwaith yw trio edrych yn galetach, a trio darllen be sy o nghwmpas i. A dim fi sy'n sgrifennu rhain – falle fi sy'n disgrifio nhw, dros dro, i rywun. Wy ddim yn hapus gyda jyst darllen yr un hen ganeuon mas o lyfr trwy'r amser.

## Goat Street &gt; Llangrannog &gt; Dafatty

**Y stryd na oedd Goat Street. Enw Goat Street nawr yw Princess Way neu rhwbeth, fi'n credu.** Ond, ma'r llwybre i gyd na, a beth fi di bod yn neud, yw cerdded y strydoedd, a gweud yr hen enwe, a ma fe'n syndod y ffordd ma amser yn diflannu, achos ... ti mewn rhyw fath o dragwyddoldeb wedi ny.

Wy'n falch fod pethe'n edrych mor llwm nawr – ma fe'n naturiol bod nhw yn – ma fe'n rhan o'r cylch sy'n troi, tmod. Achos ma fe'n adlewyrchu enaid y lle, rili. Wedi ny lle ma hwn [y ddinas] yn llifo ac yn newid yn gyson, ma da ti bethe fel Kilvey, sy byth yn newid; y môr, tmod, a'r bae.

Sylwes i arno fe gynta amser o'n i'n byw lawr yng nghefen gwlad, a hala lot o amser yn cerdded yr arfordir – tarodd e fi un dwyrnod taw'r tir sy'n symud. O'n i'n Llangrannog, a ti'n gweld y creigie'n llifo mewn i'r môr. Tarodd e fi

ar y pryd; wel, fi sy'n gweld popeth yn rong achos wy'n byw yn amser dyn; os all di dynnu dy hunan – fel ma camera'n gallu neud – tynnu dy hunan mas o na, ti wedi 'ny tu fas i amser, a ti'n gweld gwir natur pethe dynol. Wy wedi cario'r syniad na.

O'n i arfer prynu dillad yn y lle 'To Let' na – odd siop ddillad na, a nawr ma fe ddim na. A o'n i arfer prynu cameras yn y siop na, a tegane. Ti'n gallu synhwyro fe, a ma rhwbeth am weld y peth yn troi a throi a throi a throi ... ma'r un pethe'n ailadrodd trwy'r amser.

Y drafferth eto gyda iaith yw ma fe'n kind of clymu'i hunan i ffordd o feddwl. Gallen i ddweud 'you can sense the ghosts of the past here.' Wel ma hwnna'n crude ac yn anghywir i fi, tmod, a na pam ... achos ges i'n addysgu yn weledol – es i i goleg celf, a dyna'r tro cynta i fi weld y byd, synhwyro'r byd fel

o'n i'n gallu, yn iawn. A wedyn dyw miwsig mewn ffordd gyffelyb ddim yn bell o hwnna chwaith.

Ma amser yn construct ieithyddol mewn ffordd. O'n i'n darllen pyddyrnod, apparently, mewn rhannau o Dde America, pan ma rhywun yn gweud 'i'r dyfodol', ma nhw'n pwyntio am yn ôl. Achos ti'n gallu edrych mewn i'r gorffennol – ti'n gallu gweld y gorffennol, ond ti ffili gweld y dyfodol.

Dyma ni'n dod mas o'r hen dre nawr. Dafatty yw'r part hyn, a fan hyn odd y defaid yn ca'l eu cadw i'r dre. Hence, Dafatty. A ges i'n addysg i gyd yn yr oriel gelf na, y Glynn Vivian; mynd yna o leia dwywaith yr wthnos, a sefyll o flân y llunie na – dysgu – syllu ar yr un llun drosto a drosto. Doedd e ddim ymbytu iaith; o'n i'n gallu gweld twtsh y person ...

## Cefen Henfod &gt; Kilvey &gt; Cernyw, Dyfnaint ac Amlwch

**So, smelto, na beth fi'n neud gyda tiwns.** Cefen Henfod yw hwnna, wedi'i Seisnigeiddio i Cefn Hengoed gan Gymry; hynny yw, Cymry odd yn meddwl odden nhw'n siarad yn gywir – tmod, hen goed, ond na, Henfod yw e. A wedi ny na ti'r dre. O, ma siap y dre, tmod. Y twmpyn na ti'n gweld fynna – hen copper slag y White Rock yw hwnna. Copor odd hwn i gyd – le ma'r co'd i gyd yn tyfu, ac ar Kilvey – ma Kilvey'n pwysig part o'r stori hwn. A odd Kilvey wedi marw achos y llygredd. Na'r unig ddou stac sy ar ôl, ti'n gweld nhw? Na'r unig ddou – ma nhw yn yr Hafod nawr – the 'Avod, sori ... ie, odd yr holl le di marw. Nawr te, ddath y copor yn gynta o Gernyw, a Dyfnaint, ond yn glou iawn

o'n nhw di defnyddio ... odd y busnes mor fowr ma, odd e'n hiwj, tmod ... o'n nhw di defnyddio holl adnodde copor Cernyw a Dyfnaint lan. Mynydd Parys comes into the story wedi 'ny, a fe ddath Twm Whare Teg – un o'r bobl mwya digywilydd a fuodd eriod. Odd e'n berchen ar y gwaith yn Amlwch – ffeinda mas ymbyti cyflwr byw gweithwyr Thomas Williams o Amlwch – odd e'n ofnadwy ...

Ta beth, ma'r twll mawr sydd yn Sir Fon nawr, ble buodd Mynydd Parys, i gyd ar ben Kilvey, achos dath y copor i gyd lawr, a'i losgi. Llosgi craig yw e, ac odd y llygredd i gyd, achos y westerlies, wedi lladd popeth ar fynydd Kilvey.

Beth odd Twm Whare Teg yn

neud odd dod a – raw booze o'n nhw'n galw fe – hynny yw, lympie mawr o Sir Fon; rhan fwa ohono fe'n shit, ond gyda gwythienne copor ynddo fe, ac o'n nhw i bob pwrpas yn llosgi'r graig yn y smelts ma.

Dwi'n cymryd y tiwns, fel raw booze, yna smelto nhw. Ond nace jyst mewn ffordd poetic – wy'n cerdded y gwythienne 'ma. Fe gymera i tiwn fel, gwed, 'Pant Corlan yr Ŵyn', a neud hwnna 'dag e – ei drafod e, newid y pethe ffurfiol fel newid y time signature, newid y modd, a pasio'r tiwn trwyddo a trwyddo; sbido proses amser lan, mewn ffordd. Pasio'r tiwns trwy'r smelts sy lawr fyn'na.

**Hwn yw fy mhensil i** [y ffliw] – I leave no mark, ond na beth wy'n neud yw trio disgrifio hwn i gyd [Abertawe], tmod, yn y ffordd mwya onest alla i. Os bydden i'n ffeindo hanner dwsin o tiwns fel odden nhw di cal i chware yn Abertawe yn eighteen thirty, ach ... maen nhw 'na, ond dyw e ddim yn euraidd fel ma'r lle yma. Na beth fi'n trio wneud, nid whare tiwns ond disgrifio beth yw hwn – ma fe mor gymhleth; croesffyrdd, siape. Na beth fi ymbyti, anyway.





## Mission Gallery > Glynn Vivian > Maidstone > Sandfields

**Y ffordd ges i'n ddysgu – i'r coleg celf es i. Pat Briggs odd y teacher odd da fi, a life drawing odd ei peth mawr hi.**

Odd model da ni, Mrs James, a o'n i'n droio Mrs James bob dydd, tmod. A na gyd wedodd hi odd, 'You're not looking hard enough. Look harder, and draw.'

'But Pat, how do I think of this, how do I think of that?'

'Well, look harder, and draw, and then look again, and then draw again. Just keep looking,' wedodd hi. 'That's who you are; you're an artist – you just keep looking, marking, and then working. Look, mark, work, draw.'

Anyway, es i off i Maidstone, i'r coleg celf, full of excitement, tmod; dyn ifanc, newid y byd, ac o'n i di anghofio byti Pat. A flynydde wedi ny, ffonodd rywun lan a gweud 'Pat's got a retrospective in the Mission Gallery, are you going to come?'

O'n i byth di gweld ei gwaith hi, twel. Hen fenyw fach odd hi, o Yorkshire. Odd pawb yn dre'n meddwl taw bag lady odd hi, achos odd hi'n llusgo un o'r pethe ma, a pigo pethe lan fel na (sbwriel) a rhoi nhw yn y bag, a llanw'r tŷ gyda stwff fel hyn.

So ethon ni, a beth odd y retrospective odd rhywun yn siarad gyda hi, a cwpl o bethe rownd y waliau, ac odd e fel;

'Pat, you know, we're all your pupils; you taught us everything we know really – look how many people are here! Tell us a bit about your work. Tell us a bit about – 'odd plastic coffee cup gyda hi, un gwyn, plaen, gyda pedwar llwy porffor plastic yno fe, tmod, a wedodd e – 'tell us about the cup, Pat, and the spoons.'

'Oh, the tulips, you mean?'

'The tulips, of course, the tulips ...' odd y boi'n cyfweld â hi, tmod ...

'Oh, well, they're marvellous aren't they? You can get them in the shop, they cost pence – I've got them all over the house, and ...'

'– yes, but tell us about the work, Pat–'

'Oh they're just ... that's what it is.'

Odd hi'n trio pryfocio ... nid pryfocio ond cal at graidd beth yw celf, tmod. 'Everything's art,' odd hi'n gweud; 'art is everything and everything is art.'

'So how is this different to something in the Glynn Vivian art gallery?'

'Oh, don't talk to me about the Glynn Vivian ...'

'Well, you know, the worth of a work of art,' odd e'n gweud

'Oh, there is no worth to it,' wedodd hi, 'They cost fifty pence; they're marvellous. I love them.'

So, symud mlan. Odd peil o ddillad da hi ar y llawr, a dou sein – odd hi'n amlwg wedi bod yn rhyw launderette, a odd dou sein gyda hi; odd un yn gweud 'Dirty Clothes Entrance', a'r llall yn gweud 'Clean Clothes Entrance,' so odd peil o ddillad brwnt da hi a peil o ddillad glan. A wedyn –

'Tell us about the Dirty Clothes Entrance.'

'No, **entrance**,' wedodd hi, 'they do, don't they?'

'Yeah ... they do. So Pat,' wedodd e, 'tell me, if the Glynn Vivian wanted to buy that piece of work off you, could they do that?'

'Oh no, there's no point, there's no point,' wedodd hi.

'Yeah, but if they could – let's say, just to say – how much would they have to pay?'

'Well they can get the clothes – 'yes, I know, I know, but how much, as a work of art, would they have

to pay for that?'

'Oh ... they could never afford it,' wedodd hi, 'they haven't got the money. In fact, they haven't got the wit.'

'Okay, so where's your drawings Pat? You told us about your drawings, where are they?' Odd stwff fel hyn bob man, twel – dim un drawing, heblaw un drawing – cartoon gwael am yr Arts Council. 'Where's your drawings Pat?'

Odd hi'n evasive iawn am y peth, tmod; odd hi ddim moyn siarad am y peth o gwbl. A wedi ny, to cut a long story short, odd e di pwsho, pwsho a pwsho, a no do, can't do.

'Could you describe them to us then, what are they?'

'They're observational drawings, of course,' wedodd hi.

'Are they line drawings?'

'Yes, they're line drawings.'

'What materials do you use?'

'Oh, whatever's at hand'

'Okay, well, where d'you keep them? Why didn't you bring them in?' A thgwrs, odd e di dechre taro ar y boi wedi 'ny, ac arnon ni i gyd, a wedodd o 'Oh, tell us about the size of them, Pat – how big are they?'

'Oh, they're very big.'

'They're too big to bring in, aren't they, Pat?'

'Oh yes, can't bring them in,' ac odd hi'n byw mewn tŷ teras bach yn Sandfields. Ac wedyn, thgwrs, odd dagre'n dod gyda pawb, a wedodd e - a o'n i ddim cweit wedi gallu ffito'r darne at ei gilydd - ond odd e wedi, a wedodd e, 'You draw on the beach, don't you Pat?'

'Yes, I do,' wedodd hi, 'I've done hundreds of thousands. The sea's got them now ...'

Alawon - 'Carreg Bica' / 'Y Cimle'

<https://youtu.be/cAXS3-wl--4>

## Ladysmith Colliery &gt; Nant y Gelli &gt; Mynydd Cadle

Ti'n gweld y car 'na sy'n dod lawr yr hewl? Ladysmith Colliery o'dd fyn'na. Ma'r nant yn rhedeg trwy'r prysg 'na ti'n gweld i gyd fyn'na, a'r tir agored a'r co'd bach 'na. Ma fe'n rhedeg lan a wedyn ma fel S-shape – Nant y Gelli.

Y glo sy 'di neud y tirwedd ma, a sy wedi achosi'r nant i fod. Ma tŷ ni yn y co'd 'na sydd gyferbyn â'r capel, so o'n i'n byw fyn'na. Odd 'y nhad-cu wedi cael ei eni 'na a'i dad e, ac odd y ddou yn gweithio yn y colliery lan ar Mynydd Cadle, fyn'na. So odd y nant ma wedi rhedeg heibo'i fywyd e, a heibio bywyd 'y nhad, a wedyn fy un i. Wech mlynedd yn ôl nawr, farwodd 'y nhad. Es i nôl i edrych ar i ôl e am wthnos cyn 'ddo fe farw, a dechreues i gerdded hyd y nant eto.

O'dd e fel rhwbeth o'n i'n gorfod i

neud, a o'dd e fel mynd nôl i mreuddwydion i, achos yn y cyfamser, o'n i ddim yn siwr beth o'dd realiti. Ma un breuddwyd da fi; ma'r tai i gyd 'na nawr, ond o'dd ca' i'w gael, jyst ar bwys Cwmgelli. Dyw'r tŷ ddim 'na nawr, ond yn 'y mhen i, amser o'n i'n cysgu, o'n i'n breuddwydio bo' fi'n mynd i'r ca' 'ma. Diwedd haf yw hi yn y freuddwyd – ma fe'n euraidd iawn.

Wi ffili ffindo fe. Ond gerddes i'r nant a gofies i bob lan a lawr – o'dd e mor gorfforol, fel dawns – lawr fan 'yn, lan fan 'yn, rownd ffor 'yn. O'n i'n cofio'r melodi 'na – beth o'dd llif y peth, siâp y peth.

**Ond na'r unig reswm ma tre Abertawe mor brydferth fel yw e nawr;** yr unig reswm ma fe'n edrych fel hyn, a dim fel

Aberaeron neu ... Llanarth ne rwle, yw achos y copor. It would have been a small fishing village, fel y Mwmbwls, tmod.

Hwn o'dd tre mwya Cymru am rhan fwya o hanes y wlad. Heblaw am Amlwch – o'dd Amlwch apparently yn fwy, unwaith, ac wedi 'ny, Merthyr. Caerfyrddin wrth gwrs, yn bwysig hefyd, ond hwn, o achos y copor – hwn'na na'th y dre fodern fawr sy da ti nawr.

A dim bod pobl Abertawe'n fodlon gyda'u hanes nhw, ond so nhw *moyn* dim byd mwy ... ma nhw di blino trio *newid* y byd – ma nhw'n hapus â'r byd. So nhw'n chaso arian mawr, so nhw'n chaso – they're not trying to *impress* anyone any more. Trâd ar y ddaear. Er, ma fe'n rong i fi siarad drostyn nhw, rili ...

wedi methu unrhyw beth ar

# ystamp.cymru?



Dyma flas o'r cynnyrch a gyhoeddwyd ar ein gwefan ers y rhifyn diwethaf:

| [Cerdd Ym Mharc Brynmill Tudur Hallam](#) | [Rhestr Ddarllen Concrit Efa Lois](#) | [Rhifyn Y STAMP #3](#) | [Cerdd Mynydd Beili Glas Nerys Bowen](#) | [Dathlu Penblwydd Y Stamp](#) | [Cerdd Nant y Pysgod Sara Borda Green](#) | [Cerdd Ai hyn yw'r Nadolig? Gwen Saunders Jones](#) | [Stori Fer Aberth y Tafod Morgan Owen](#) | [Cerdyn Post Creadigol 'Mericia Llŷr Titus](#) | [Cyfweliad Arrate Illaro](#) | [Cerddi Taith Morwen Brosshot](#) | [Cyflwyniad Ffuglen Ddigidol Leia Fee](#) | [Cerdd Brwydr y Tafodieithoedd Sara Louise Wheeler](#) | [Stori Fer Yncl Dennis Iago ap Iago](#) |

... ac ar ddechrau 2018, dyma ddeg eitem mwyaf poblogaidd y wefan ar gyfer 2017!

10. [Stori Fer: Safbwynt - Ifan Tomos Jenkins](#)
9. [Cerdd: Druidstone - Elen Ifan](#)
8. [Dathlu: Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2017](#)
7. [Cyfweliad a Chelf: Cryf fel Llew - Bethan Mai](#)
6. [Ysgrif: Llefydd Symudol - Morgan Owen](#)
5. [Cerdd: Cadenza Cerddorfa'r Orsaf - Awen Fflur](#)
4. [Drama Radio: Pwdin Reis - Mari Elen a Chwmni'r Tebot](#)
3. [Cerdyn Post Creadigol: Berlin - Miriam Elin Jones](#)
2. [Cerdd: Kalamari - Caryl Bryn](#)
1. [Rhestr Ddarllen: Deg Cyfrol gan Awduron Benywaidd - Mair Rees](#)

# Y LAB RDY

Beth fyddai'n digwydd pe byddai rhai o gymeriadau adnabyddus llenyddiaeth Gymraeg yn dod wyneb yn wyneb? Ar gyfer Labordy'r rhifyn yma, gofynnwyd i **Llio Maddocks** ddewis dau gymeriad llenyddol, a dod â nhw at ei gilydd mewn un darn creadigol. Monica Maciwan (*Monica*, Saunders Lewis) – meet Wini Ffni Hadog (*Te yn y grug*, Kate Roberts).

## LLIO MADDOCKS

### CLEOPATRA

Agorwyd y drws ac ochneidiodd Mrs Maciwan unwaith yn rhagor. Doedd arni ddim eisiau cael ei hymolchi gan nyrs ffwdanllyd y bore hwn; roedd arni eisiau llonydd i eistedd a gwyllo'r stryd yn symud oddi tan ei ffenest. Daeth i adnabod cymdogion Heol yr Ysbyty bron fel ffrindiau drwy len trwchus y gwyr a gwyliai hi'r gwagedd yn mynd o gwmpas eu pethau fel morgrug. Ni faliai Mrs Maciwan pan gyfarfu ei llygaid â rhai gwraig ifanc, ei phen wedi gogwyddo tuag ail lawr yr ysbyty mewn chwilfrydedd, er na fyddai'r cyfarfyddiad fyth yn para'n hir. Ond cuddiai y tu ôl i'r llenni tenau pob tro y gwelai'r plant yn mynd neu'n dyfod o'r ysgol.

'Pnawn da,' meddai llais siriol. Roedd y nyrs yn dal yno er gwaethaf ymdrechion tawel Mrs Maciwan i'w hanwybyddu. Trodd o'r diwedd i weld nad nyrs oedd yno, ond gwraig ifanc – yma i lanhau yn ôl ei brat â'r pocedi llawn. Diolchodd i'w hun nad oedd am gael ei chyffwrdd heddiw; roedd pob cyffyrddiad yn atgas ganddi erbyn hyn.

"R ydw i'n clywed gan y mêtryn nad ydych chi'n rhy hoff o sgwrs. Wel mi fyddwch chi wedi dod i ben eich tennyn efo fi felly, achos prin fyddai'n cau fy nhrap, yn ôl fy ngŵr. 'R oeddwn i'n arfer cael chwip dîn dyddiol am brepian, w'chi.'

Syllodd Mrs Maciwan yn fud ar y wraig ac heb air, cymrodd sigarét o'r blwch ar sil y ffenest. Doedd ganddi fawr o drugareddau yn ei hystafell, dim ond y blwch hwn, ambell botel o beraroglau, a degau o gobannau, yn wyrddlas ac orains, fioled ac ysgarlad yn saff tu ôl i ddrysau'r gwardrob. Y hi oedd wedi mynnu ei bod hi'n eu cadw, er na fyddai'n defnyddio dim ond y blwch sigarenau.

'Gadewch i mi agor y ffenest 'na, Mrs Maciwan, neu mi fydd y siambar wedi llenwi â mwg.'

Symudodd hi ddim; roedd hi'n pwyso yn erbyn y ddolen a doedd arni



Llun: Janice Ann Jones

ddim eisiau awel i'w hoeri. Cododd y wraig ifanc ei hysgwyddau gan sylwed-doli nad oedd am gael ei ffordd ei hun.

'Fel y mynnwch chi, mi ledi.'

Prin oedd Mrs Maciwan yn deall acen wledig y ferch. Roedd ei gwallt a'i ffedog yn daclus, ond roedd ei llais fel petai hi newydd ddisgyn o ochr y mynydd. Cymrodd bwl arall o'i sigarét a chwythu'r mwg tua'r nenfwd.

"R ydach chi'n edrach yn llawn steil, Mrs Maciwan, yn pwyso'n erbyn y ffenest fel yna. Mae'r menwod eraill yma'n edrych fel petaen nhw'n gwisgo sachau tatws.'

Cydiodd Mrs Maciwan yn un o'i chyrls a'i dycio tu ôl i'w chlust. Ni chofiai'n iawn y tro diwethaf iddi dynnu brwsh drwyddo.

'A'r poteli sent deliaf a welais i erioed. Hoffech chi i mi roi peth ar eich hances boced?'

Cyn i Mrs Maciwan allu cynnig ateb, roedd y ferch wedi doddi hances rhwng ei bys a'i bawd, ac roedd y perarogl yn codi tuag at ei ffroenau.

'Ydi o'n rhy gryf i chi?'

gofynnodd y ferch wrth weld llygaid Mrs Maciwan yn llenwi, ond daeth dim ateb.

'Mi fyddai fy meistres yn arfer rhoi sent i mi pan fyddwn i'n mynd am fisits ar bnawn dydd Sadwrn, w'chi. Mi ddwedodd fy ngŵr wrtha i mai fy arogl i wnaeth o gyntaf, a thrwy hynny fy ngharu. Dyna ddeud! Mi roedd y feistres yn arogl i'r union yr un fath yn doedd, ond doedd hi'n da i ddim iddo ei charu hi.'

Syllodd Mrs Maciwan ar y wraig ifanc, y perarogl wedi drysu ei golwg, a gwelodd arni ei hwyneb ei hun a phenwisg o rosod cochion am ei phen.

'Gwrandewch arna i yn parablau am fy ngŵr. Ddo i fyth yn gyfoethog

wrth siarad, a dyna pam mod i yma'n llau, debyg iawn, yn hytrach na mewn tŷ bwyta'n yfed te pnawn.'

Gwylodd Mrs Maciwan wrth i'r wraig ifanc edrych dros ei hysgwydd cyn rhoi ei llaw yn ei phoced.

'Ond wnewch chi gadw cyfrinach? Mae gen i flas am bethau melys, ac mi brynais hon ar fy ffordd i'r ysbyty y bore 'ma. Dew, roedd ffenest y caffi yn llawn ohonynt a fedrwn i ddim peidio. Hoffech chi damaid bach? Dwedwch yn gyflym neu mi fydda i wedi sglaffio'r cyfan cyn i chi gael tamaid.'

Taflodd y wraig ifanc ei phen yn ôl a chwerthin yn ddi-hid fel corn trê. Yna distawodd yr un mor gyflym a thynnu bocs bychan o'i phoced. Gwelodd Mrs Maciwan fod y boced wedi ei leinio â sidan coch.

'Cymrwch hwn,' meddai gan dynnu macarŵn orains o'r bocs a'i ddodi ar y sil ffenest. 'Mi ddwedodd y mêtryn eich bod chi wedi gwrthod cinio, ac y byddai diân o dempar arnoch chi. Mae'n siŵr fod eich bol yn rhoi fel llew erbyn hyn, ond mae tymer neis iawn arnoch chi, wir.'

Yn betusgar, teimlodd Mrs Maciwan ochr y macarŵn gyda'i thafod, yna gwasgodd ei dannedd i mewn i'r crwst a clywodd y fisged yn crenshian yn ei cheg. Llifai'r blas yn ffosydd cul i lawr ei gwddf gan ei deffro.

'Cleopatra,' meddai hi, y gair yn

llithro'n drwsogl o'i gên.

'Be ddwedoch chi? Ydych chi'n ei lecio? Dew, roedd cannoedd ohonynt yn ffenest y caffi, pob un ohonynt yn ran gwahanol o'r enfys.'

Llyfodd Mrs Maciwan ei gwe-fusau gan dynnu pob briwsionyn orains i'w cheg a gadael iddo ymdoddi yno.

'Pompeia,' meddai wedyn; ei thafod yn arfer â chreu synnau unwaith eto.

'Gafoch chi eich magu yma yng Nghaerdydd?' gofynnodd y wraig ifanc. 'Dyna pam nad ydw i yn eich deall, efallai. 'Dwn i'm be yn y byd mae unrhyw un yn ei ddweud yma; mae'r acen yn fy nrysu i'n lân, wir yr.'

Llyfodd ei bysedd a chwiliodd o dan ei hewinedd am damaid arall, pa bynnag mor fach, o'r macarŵn.

'Dim ond newydd symud yma ydan ni – y fi a 'ngŵr. Dyna fi eto'n siarad amdano! Mi griais i lond Llyn Llyncwyl yn gadael Sionyn bach, ond tydi o ddim yn beth bach ddim mwy – mae o bron cyn daled â ffrâm drws. Mi fydd o'n dechrau yn y chwarael yn o handi rŵan, ac mi fydd rhaid iddo roi stop ar grwydro'r mynydd. Mi yrra i bres iddo brynu trowsus melfared a thun bwyd iddo'i hun.' Tynnodd y wraig ifanc facarŵn arall o'i bocs, un ysgarlad y tro hwn, a'i gynnig i Mrs Maciwan.

'Dewch, bytwch wir. Mae'n rhaid fod gennych wanc yn eich stumog.'

Bywtaodd Mrs Maciwan y deisen yn araf y tro hwn gan gnoi pob cegiad nes y diflannai. Ceisiodd wneud iddo bara am byth.

'A dyna fi wedi dod i ben yma,' meddai'r wraig ifanc gan godi ei chlw. 'Wyddoch chi, tydw i ddim yn gweithio yma pob dydd. Chwaer y llandedi sy'n fêtryn yma, ac wedi gofyn echnos i mi roi help llaw yn cadw trefn ar y lle. Dwedwch, Mrs Maciwan, ydech chi'n cael lot o fisityrs? Achos mi hoffwn ddod yn ôl i'ch gweld. Mi ddo i â mwy o facarŵns, ac mi gawn de pnawn bach arall – dest ni'n dwy.'

Cytunodd drwy wyro ei phen, ac roedd y wraig ifanc wedi diflannu mewn corwynt gan adael dim ond blas mefus ar ei hôl. Cododd o'i heistedd ac agorodd ddrws y gwardrob. Anwesodd y sidan fel hen ffrind a thynnodd y goban ysgarlad o'i chuddfan. Roedd hi am wisgo yr un lliw â'r macarŵn.

Gadawodd i'r sidan ganu ar hyd ei chroen ac edrychodd yn y drych gan weld am y tro cyntaf mewn blynyddoedd ei hardderchrowgrwydd hi ei hun. Cuddiai'r defnydd bob craith a staen ar ei chorff. Tyciodd gyrl rhydd y tu ôl i'w chlust a theimlodd flaenau ei bysedd y goron rhosod oedd ar ei phen. Gwenodd Monica gan wybod mai iddi ei hun yn unig yr oedd hi'n gwisgo.

'Cleopatra,' sibryddodd wrthi'i hun gan arogl ei hances boced.

*Y Stamp yn cyflwyno:*

# DRAMÂU RADIO Y STAMP

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD 2018

**Y CWT DRAMA | 14:00 | Dydd Sadwrn 11.08.18**

Yn dilyn llwyddiant drama radio gyntaf gwefan *Y Stamp* (Pwddin Reis - Mari Elen) y llynedd, dyma gyflwyno - am y tro cyntaf - arlwy arfaethedig y gyfres ar gyfer 2018-19. Dyma sesiwn sgript-mewn-llaw hwyliog a bywiog fydd yn cynnwys gwaith newydd gan:

**FFION HAF WILLIAMS | MARED LLYWELYN | BETH CELYN | CARYS TUDOR**

Cyfarwyddo: **CARYS JONES**



GARETH EVANS JONES

## 3 DARN O LÊN MEICRO

## YR WYTHNOS NEWYDD

Ni allai hi dderbyn hynny. Fe wyddai y dylai gan iddi ei weld yn diffodd â'i llygaid ei hun; gan iddi weld ei glwyfau'n geglau ar y pren. Gwelodd. Galarodd. Ond roedd rhywbeth ynddi a gredai, a wyddai fel arall, felly cododd ac aeth am dro i'r ardd.

Yn y dref y prynhawn hwnnw aeth y newydd ar led. Rhyw sŵn ym mrig y morwydd oedd hi, meddai rhai, 'dyna'r cyfan.'

Gwenodd hithau, wrth eu clywed nhw drwy gydol yr wythnos honno'n hel straeon ymysg ei gilydd am yr hyn a welsant. Gwenodd am na wyddai neb am yr hyn a brofodd hi'r diwrnod hwnnw yn yr ardd.

## LISA LÂN

Byddai'n eistedd gydag o am oriau bob tro y galwai heibio. Byddai'r ddau'n sgwrsio am bob dim a dim byd. Hithau'n tynnu arno'n aml, ac yntau'n ei hateb yr un mor ysgafn.

Meddyliai amdani'n gyson; am ei llygaid dyfnion, am ei gwên gynnes, am ei chroen meddal. Nodweddion y disgwyliid i artist sylwi arnynt. Siŵr iawn.

Cyrhaeddodd diwrnod y dadorchuddio. Roedd y swyddog i'w weld wedi'i fodloni'n fawr. Canmolodd ambell un, a ystyriai ei hun yn dipyn o arbenigwr celf, steil y *sfumato* oedd i'r portread. Trodd y swyddog at ei wraig yn y man, i glywed ei barn am ei hanrheg. Edrychodd hi ddim ar yr artist wrth iddi gamu'n nes at y darlun, at y ddynes ddieithr a'i dwylo wedi croesi, a'i chysgod gwên ar bylu.

'Yndi ... mae'n dda iawn.'

## ' NIALWCH

Un o'r diwrnodau hynny oedd hi **heddiw**: fel gwisgo sbectol sydd wedi stemio ar ôl iddi fod yn eistedd wrth y ffenest dros nos.

Arhosodd ei ferch ddim yn hir. Soniodd rywbeth am wneud neges cyn mynd i'r ysgol – noson rieni neu gêm ffwt -bol neu ryw gonsart neu'i gilydd. Ond roedd o'n falch: cafodd lonydd i fynd drwy'r bocs diweddaraf a ddaeth o'i hen gartref. Byddai bocsys o betheuach yn glanio'n gyson yn ddiweddar, a'r rheiny'n llawn hen geriach. Ond heddiw, yng nghanol y 'nialwch, cafodd hyd i gragen fôr drilliw. Cododd hi at ei glust ac o wneud hynny, clywodd y chwerthin, y cydio dwylo wrth gamu dros y tonnau, a blas yr heli yn yr hufen iâ. Cliriodd y stêm o'r sbectol, a rhoddodd y gragen ar y bwrdd wrth ei wely.

'Bocs arall, Bill?' gofynnodd un o'r 'genod-bach-clên' wrth fynd heibio'r stafell.

'Ia, 'chan.'

'Wbath o werth tro 'ma?'

Yn y man, trodd at yr ofalwraig a safai yn nrws ei stafell, 'Affliw o ddim, cofiwch.'

# CYFWELIAD

Llŷr Titus yn sgwrsio â

## BECCA VOELCKER

### Ffenest Beudy, Ishigaki

"Llun nes i ei dynnu ar ynys reit yng nghanol y môr i'r de o Siapan, wrth ymyl Taiwan, ac i ogledd y Philippines. Ishigaki ydi un o ynysoedd mwyaf deheuol Siapan. Nes i fyw efo teulu yno am haf, ac o'n i'n teimlo'n reit gartrefol ar y fferm ac ar lan y môr!"

I'r rheini ohonoch chi sy'n dilyn arlwy [ystamp.cymru](http://ystamp.cymru), mi fyddwch yn gwybod o'i gardyn post creadigol i'n **Llŷr Titus** ni dreulio rhai misoedd cyn y Nadolig yn astudio yn adran Geltaidd Prifysgol Harvard. Tra'r oedd o yno mi ddaeth i gysylltiad â **Becca Voelcker**, Cymraes sy'n arbenigo mewn curadu, ffotograffiaeth a ffilm.

**Cysylltiad digon sâl sydd ar y WiFi** ond wedi 'chydig o helynt daw Becca Voelcker, myfyrwraig PhD yn adran Ffilm ac Astudiaethau Gweledol Prifysgol Harvard, a waliau brics cyfarwydd Neuadd Breswyl Perkins i'r golwg. Mae hi i weld yn fore braf yn Cambridge, Massachusetts, llawn brafiach nac ydi hi am dri o gloch y p'nawn yn Llŷn a hithau'n ddigon oer, ond buan iawn y mae'r sgwrsio'n cynhesu rhywun. Mae gan Becca ddiddordeb mewn sawl maes – curadu arddangosfeydd, ffotograffiaeth a ffilm. Ac mi fu's i'n lwcus iawn i'w chael hi fel Residential Advisor – warden neuadd breswyl i bob pwrpas – tra'r oeddwn i drosodd yn America.

### Y peth callaf i ddechrau falla Becca fasa i chdi sôn rhyw 'chydig amdanat dy hun dwi'n meddwl.

So ges i ngeni adra ym Mhant Glas Uchaf sydd ar ymyl mynydd Graig Goch, a ngeni yn y tŷ sydd yn bwysig i mi achos mae o'n hen, hen dŷ. Mi oedd o'n adfail ac mi ddoth mam a dad rhyw 30 mlynadd yn ôl i Gymru a mi nathon nhw weld yr adfail 'ma a theimlo isio helpu'r lle a rhoi to arno fo a ballu. Byw yno nes o'n i'n un deg naw ond oni set ar fynd i Lundain. Mi es i i ysgol gelf Goldsmiths a g'neud Celf Gain, felly ffotograffiaeth, ac wedyn nes i ddechrau rhoi y ffotograffs i fewn i slideshows a wedyn rhoi 'chydig bach o fwisig neu siarad ar eu penna nhw a dyna ni wedyn – o'n i di g'neud ffilm. Ond yn

barod yn Goldsmiths o'n i'n mwynhau yn y llyfrgell, yn sbïo ar waith pobol erill ac yn meddwl am guradu hefyd. Felly nes i ddechrau ar hynny hefo ffrindia ne ar fy mhen fy hun a wedyn oni dal yn lecio darllan a sgwennu felly es i i Gaergrawnt i neud ôl-radd.

Wedyn o'n i'n dechra diflasu hefo Prydain neu bod mewn rhyw comfort zone. Oni isio challenge lly nes i ddechrau sbïo ar ysgoloriaethau oedd yn rhoi cyfla i symud i rwla pell a nes i ffendio un oedd yn mynd â fi i Siapan. Dyna nes i, a byw yn Tokyo am flwyddyn a hanner yn dysgu Siapaneg. I gychwyn efo'i o'n i ddim yn gwybod llawar am Siapan ac oni jesd isio'r challenge o ddyysgu iaith wahanol a sgrïpt sgwennu gwahanol. Y petha oedd yn fy nenu fi fwy oedd y

diwylliant gweledol – petha fel pensaerniaeth; ma'n rhieni fi'n bensaerniaid felly ges i'n magu yn meddwl am adeiladau a ballu. Ma'n swnio'n od i ddeud bwyd hefyd ond ma'r bwyd yn Siapan, fel ti'n gwobod – mae o'n ddiwylliant gweledol dydi – ma nhw'n edrach fwy tha jewelry ne w bath. Y ceramics a dillad a jesd bod dim sydd i wneud efo'r llygad. Ond hefyd yn enwedig rwan wrth i mi deithio yn ol ac ymlaen a gwneud fwy o ymchwil, beth sy'n ddiddorol ydi hanas Siapan a'r dylanwad sydd yn dod o Ewrop ne America y rhannu dylanwada a'r politics o hynny fyd. Be ydi'r problema efo westernization neu diwylliant traddodiadol Siapan sydd falla yn anodd i bobol yn Japan rwan fatha'r syniad o conformity a ballu. Wedyn ella nes i ddechrau efo jesd y syniad o 'waw, ma'r lle ma'n anhygoel' o ran y petha ti'n sbio arnyn nhw ond wedyn wrth i fi ddysgu Siapaneg a dod i nabod y bobol yna dwi di dod i feddwl mwy am y betha sydd y tu ol i be ti'n weld. A'r un peth yn America – nes i ffendio'r PhD yn Harvard achos bod o mor ryngddisgyblaethol. Un cais nes i oedd yn chydig bach o wildcard, ac oni'n lwcus iawn – dyna sut ddes i i fama. Ond dwi'n cofio es i i Efrog Newydd yn un deg naw ac oni'n transixed efo'r adeiladau a petha fel Diners neu dacsis melyn neu bitsas anferth – y petha eitha amlwg – ac yn teimlo fel bo chdi mewn ffilm Scorsese ne w bath, ond wedyn wrth i mi fyw yma rwan, yn enwedig efo'r Trump Dynasty mae o'n brofiad mor wahanol. Ti'n sylwi ar betha tu ol i'r amlwg ac yn dechra poeni amdany'n nhw. Fydda sôn am sut beth di dwnod fel arfar yn ddiddorol?

### la, basa ar bob cyfri.

O ran fy ngwaith, dwi'n darllan dipyn o theori ffilm neu betha sydd ddim yn sôn am ffilm ond eu bod nhw yn dylanwadu arna fi – llyfrau athroniaeth neu ddaearyddiaeth hyd'n nod.

Wedyn fydda i'n mynd i'r 'Harvard Film Archive' sef sinema Harvard, ac unai yn sbio ar ffilmiau dwi di gofyn iddyn nhw eu tynnu o'r archif i mi weld neu os oes na director yn dod i Harvard i rannu'i ffilmiau, mi fydda i'n cyfarfod nhw. Nes i gyfarfod rhywun anhygoel ddoe – Agnès Varda di'i henw hi. Ma hi'n wyth deg naw mlwydd oed ac oedd hi yn y French New Wave yn y 50au a'r 60au ac mae hi'n dal i wneud ffilmiau. Di dod o Ffrainc, ac mae hi ar ei ffordd i'r Oscars wsos yma, ond mae hi di stopio yn Harvard a ges i sgwrs

efo hi achos mod i'n sgwennu amdani hi. Weithiau dwi'n sgwennu ar gyfer cylchgronau. Mae'r BFI – y British Film Institute – efo cylchgrawn, neu mae na gylchgrawn celf or enw Frieze. Dwi'n sgwennu petha am ffilm ar eu cyfer nhw hefyd felly weithia dwi'n mynd fwy i'r ochr journalistic yn lle'r academig.

### Da ni di rhyw fath o sôn am sut ddois di ar y llwybr yma do, ond o ran ysbrydoliaeth a ballu, oedd 'na ffigyrau penodol?

Mi oedd yna rwbath penodol odd yn bwysig iawn i mi – fe oedd 'na gymdeithas ffilm yn Harlech a bob mis mi oedd y gymdeithas ma yn dangos ffilm o rwla yn y byd. Odd mam a dad erstalwm yn mynd i'r gymdeithas ma, a phan o'n i o rhyw ddeg oed ymlaen o'n i'n cal mynd efo nhw. Odda nhw'n checio be odd y ffilm, ac o'n i'n mynd os oddi'n iawn! Felly unwaith y mis o'n i'n gweld ffilm anhygoel o rwla'n y byd lle swni'm di gallu deud tha chdi lle ar y map oedd y wlad. Doedd gen i'm syniad be oedd geiria tha director neu producer yn ei feddwl ond oni di 'nenu – oddo'n anhygoel. A dwi'n cofio ar ol y ffilm, fydda ni'n dreifio'n ol yn y car – yn ol i Bant Glas – ac o'n i yn y car ond hefyd o'n i yn lle bynnag o'n i di bod yn y ffilm. Oddo fatha bo fi'n teithio i ganol y desert neu i Hong Kong ne lle bynnag, a dwi'n siwr bod hynny di neud fi feddwl bod ffilm yn hollol ... hyd yn oed wrth feddwl amdano fo rwan dwi'n excited! Wedyn yn hytrach na rhywun, oddo'n rhywbeth, sef y gymdeithas ffilm a'r profiad o neud hynny ond wrth gwrs mam a dad odd yn mynd fi yna ac yn prynu'r tocyn felly dwi'n ddiolchgar iddyn nhw hefyd!

### Ma'n rhyfadd sut mae petha fel'na'n gosod sylfaen dydi, ond o ran dy waith di rwan, be'n union sydd yn mynd a dy fryd di?

Wel, ar hyn o bryd dwi'n

sgwennu am y motiff neu'r ffigwr o rywun yn cerddad mewn ffilm. Trafod be ydi cerddad a mwy na hynny be sy'n digwydd os ydi'r person sydd yn cerddad yn leiafrif o rhyw fath. So os di'n ddynas neu yn rhywun tlawd neu'n migrant ne be bynnag, a be di'r politics o gerddad neu o gymryd lle – dwi'm yn gwobod os alli di ddeud hynna yn Gymraeg – taking up space neu occupying space de, os wyt ti ddim yn rhan o fwyafrif. Dwi fel arfar yn sbio ar ffilmiau arbrofol neu avant-garde, artistig sydd efo elfen ddogfennol iddyn nhw. Ma nhw i gyd yn gofyn cwestiyna gwleidyddol am hunaniaeth; am bwy sy'n sbio ar bwy, neu pwy sy'n sbio arnyn nhw; beth ydi cartref neu ddadleoliad – cwestiynau felly. Dwi'n teimlo cyfrifoldeb i sbio ar ffilmiau fel'na ac hefyd i glywad lleisia sydd ddim yn cael sylw'n hawdd, neu'r lleisia ti ddim yn clywad yn amal.

### Sôn am sylw a phetha felly ac am fanylion, o ran y ffilmia ac yn y blaen, ma'r manylu ma'n bwysig ydi?

Ydi, mae o'n rwbath dwi'n gweld yn ethical – o sylwi; o beidio anghofio lleisia neu topics sydd ddim yn denu sylw yn amal; neu sydd yn betha sydd yn rhy



ddyddiol neu'n rhy ddiflas i lot o bobl feddwl eu bod nhw'n ddifyr. Ond ma nhw'n ddifyr, a dwi'n meddwl bod hynny'n w bath ma ffilm yn rili gallu helpu ni i sylwi eto a sbio eto, a helpu'n gallu ni fframio rw bath.

**Oes na rw bath – odda chdi'n sôn am bobol ddim yn sylwi ac yn trafod y petha 'ma – oes 'na elfen wleidyddol yn y synnwyr o dynnu sylw at w bath o bosib?**

Oes, yn sicr. Dyna ydi'r rhan fwya ohono fo hyd yn oed os ti'n meddwl am sbio ar w bath hollol normal o ddydd i ddydd, fel rhywun yn gweithio mewn gardd yn ôl adra, duda. Ma'n bwysig, dwi'n meddwl, i sbio ac i feddwl pam bo ni'n gneud petha fel'na; pam fod pobol ar draws ein byd yn g'neud rw bath tebyg; be ydi'r link rhwng person a lle ma nhw'n byw, a sut ma hynny'n gneud iddyn nhw deimlo a dewis petha yn eu bywyd nhw. Ac ella bod hyn yn mynd at be ydi'r dylanwad o le a pham fod lle yn bwysig i fi; a dyna ydi o dwi'n meddwl – mae o'n dod o athroniaeth phenomenology sef na alli di fod yn y byd heb bod ti mewn rhyw le, a bod ein lle a'n safbwynt ni i gyd yn dylanwadu ar be bynnag yda ni'n meddwl amdano fo a sut

da ni'n pleidleisio ne sut da ni'n trafod petha efo'n gilydd i wneud hefo safle. Felly ma'r ffaith bo fi'n dod o gefn gwlad neu o Gymru ne'r ffaith fod rhywun arall yn dod o Syria er enghraifft a di gorfod symud – ma hynna yn effeithio ar sut yda ni'n teimlo 'tha person.

**la, ma'r ffiltars 'ma yn betha y dylia ni gofio amdany'n nhw dydyn – gin bawb ei sbectol. Efo'r bobol y tu allan – lleiafrifoedd a ballu – ydi'r ffaith bo chdi di teithio i wledydd arall, a di bod ar y tu allan dy hun falla di rhoi dealltwriaeth i chdi o hynny? A'r ffaith falla bo chdi'n siarad iaith leiafrol?**

Yndw, dwi'n siŵr ei fod o – bod dod o Gymru a chael fy magu yn ddwyieithog di magu diddordab mewn iaith, hefyd bod dod o gefn gwlad di magu diddordab mewn sut deimlad ydi o ynghanol Tokyo neu yng nghanol Llundain. Y cyferbyniadau rhwng llefydd neu ieithoedd neu ffyrdd o fyw sy'n ddifyr iawn. Ac yn fwy na hynny dio'm fatha bo fi di dod o rwla sydd yn siarad Sbaeneg neu Mandarin. Ma siarad Cymraeg yn bwysig i fi achos di'm yn iaith anfarth.

**Da ni di rhyw fath o sôn am y**

**gwrthgyferbyniad ma a'r petha sy'n dod at ei gilydd – dwn i'm oes gen ti rw bath i sôn am hynny eto? Y gwahanol elfennau ma, o ran dy waith creadigol di?**

Wel, erbyn rŵan yn aml dwi'n ffendio ffilmau pobl erill yn fwy diddorol na ffilmau wnes i fy hun cyn Harvard, ond dwi'n gweld curadu yn rw bath creadigol achos mae o'n ffordd o sylwi ar wahanol betha, dod a nhw at ei gilydd a chreu sgwrs yn y galeri neu mewn rhaglen yn y sinema. Dwi'n teimlo'n reit greadigol pan dwi'n curadu petha, a ma' cyferbyniada fel da ni wedi sôn yn ffordd o greu sgwrs a chreu tensiwn mewn syniada neu safbwyntia. Ar hyn o bryd, dwi wedi bod yn gweithio efo curadur yn yr amgueddfa gelf yma a ffotograffiaeth ydi'i harbenigedd hi. Odd o'n ddifyr rhyw bythefnos yn ôl – odda ni yn yr archif efo'n gilydd ac o'n i'n sylwi arni hi yn sbio ar ffotograffs. Oddi'n sbio ar gannoedd ohonyn nhw, ac oddi'n mynd trwyddyn nhw yn gyflym iawn ond yn amlwg odd ganddi hi intuition ofnadwy o gryf achos weithia oddi'n sdopio ac yn deud 'hwn dwi'n lecio; ma'r compostion yn gweithio, ne ma'r contrast o dywyll a gola yn neis,' ne be bynnag oddo. Ond fwy fatha bod ei



**Tatami, Ishigaki**

"Dwylo hen ddynes yn gweu tatami, sef llawr gwair sy'n cael ei ddefnyddio mewn tai traddodiadol ar draws Siapan. O'n i'n licio sgwrsio efo hi a dysgu am ei bywyd a'i gwaith. Oedd ei dwylo hi'n anhygoel"

chorff hi'n teimlo rwbath, neu ei llygad hi'n teimlo rwbath, ac wedyn oddi'n symud ymlaen. Ma hynna'n greadigol dwi'n meddwl, achos dio'm yn w bath wti'n gallu ddysgu o lyfr. Mae o yn fwy fel rhywun sy'n sgwennu barddoniaeth neu'n peintio llun.

**Ac mae o i'w wneud efo safle a gosod a ballu hefyd dwi'n cymryd? A dewis. O'n i'n gweld amgueddfa Isabella Stewart Gardner ym Moston yn ddifyr. Casgliad personol rhywun wedi ei osod fel amgueddfa. A system hollol wahanol i be sa ti'n ddisgwyl, ond oddo'n gweithio i fi be bynnag de.**

la, na chdi, yn hollol. Mae o'n ddifyr dydi – all di'm ella disgrifio mewn geiria ond mae o unai yn gweithio ne dio ddim, a ti unai yn teimlo w bath ne ti ddim. Dyna ydi'r magic o betha creadigol masiwr, a ti'n iawn efo gofod y galeri neu dŷ Isabella Stewart Gardner neu hyd yn oed os ti'n gweithio wrth greu rhaglen ar gyfer sinema. Ti hefyd yn meddwl am ofod mewn ffordd ond gofod amser lly. Duda bo fi'n curadu cyfres o ffilm am gerddad— swni yn gorfod meddwl be sa'n gneud ffilm dda i agor y gyfres ac ar ôl hynny be fasa'n mynd wrth ymyl y ffilm yna a'r un nesa. Meddwl am brofiad wti'n yn diwadd – profiad rhywun unai yn cerddad trwy galeri neu yn ista yn y sinema.

**Ma hynny yn dod â ni o ryw fath at y busnas rhyngddisgyblaethol ma, a'r syniad ... dwi di bod yn meddwl yn ddiweddar pa mor ddefnyddiol ydi gosod ffiniau o ran genres a pha fath o stwff creadigol ti'n wneud, ac erbyn rŵan dwi'm yn gw bod ydi'r ffin yn bodoli yn y lle cynta ac a ydi o'n ddefnyddiol.**

Dwi'n ama bo nhw ddim yn bodoli, ne bod nhw ddim yn helpu yn fwy na w bath sy'n neud i chdi ganolbwyntio am chydig a 'na fo. Dwi wastad di gweithio mewn ffordd rhyngddisgyblaethol ond weithia mae o'n bwysig i arafu ac i ganolbwyntio. Felly ma'n bwysig dysgu be ydi'r ffyrdd o ddadansoddi ffilm, neu ddysgu Siapaneg duda ond di hynna ddim yn ddifyr ofnadwy i mi os ti ddim wedyn yn mynd a'r petha ti'n ddysgu i faes arall ac yn meddwl 'be sy'n digwydd os dwi'n llusgo'r iaith yma ne'r ffordd yma o ddadansoddi ffilm i faes celf ne be bynnag' a wedyn ma na sbarcs yn dechra cael eu creu.

**A phan ti yn dadansoddi ffilmia, odda ti'n sôn bo chdi'n cyfrannu i wahanol gylchgronau a ballu. Oes na w bath penodol ti'n chwilio amdano fo ta cymryd petha fel do'n nhw hefo meddwl agorad?**

Dwi'n trio cymryd petha fel do'n nhw, a be dwi'n lecio ydi pan ti'n gadal y sinema neu galeri yn meddwl w bath gwahanol ne'n teimlo'n wahanol nad oedda ti cynt. Ma hynna'n bwysig dwi'n meddwl, ond yn sicr dwi'n mynd yno efo rhyw fath o ffiltars, fel nes di sôn, achos pwy ydw i a'r hyn dwi'n teimlo sy'n bwysig. Os dwi'n sgwennu am ffilm un peth be dwi'n aml yn neud ydi sgwennu yn benodol ar un elfen weledol – un olygfa falla – a meddwl, er enghraifft, be ydi rôl lliw yn yr olygfa yma; pam fod y camera yn symud yn y ffordd mae o; neu pam ein bod ni'n gweld peth penodol. Be bynnag ydi o dwi'n trio gweld w bath reit concrete a manwl ac o hynny yn agor allan i feddwl am rwbath mwy a mwy abstract; rhyw fath o negas yn y ffilm. Dyna sy'n gweithio yn dda i mi achos dwi'n meddwl efo hynny bo chdi ddim yn anghofio fod y ffilm yn ffilm, ond ti hefyd yn dangos sut neu pam fod dewisiada bach fel lliw ddim yn fach o gw bwl, ond bo nhw yn bwysig i rannu rhyw fath o negas. A wedyn be arall dwi'n sbio amdano fo mewn ffilm ydi tensiwn – bod na rwbath sydd yn anghyfforddus yn y ffilm – a dwi'n meddwl bo hynny yn reit bwysig. So bo ni ddim yn ista nôl yn ein seti ac yn dallt bob dim. Achos wedyn, efo'r tensiwn, da ni'n gorfod cymryd rhan mbach fwy a defnyddio ein penna ni a meddwl chydig, a dwi'n meddwl fod hynny'n bwysig.

**Falla bod hynny yn rwbath y medra ni drafod – y syniad rhwng y poblogaidd a'r petha llai mainstream, oes na wrthdaro rhwng rheiny? O ran bod rhywun yn meddwl fod y stwff poblogaidd ddim cystal achos fod pobol yn ei lecio fo ond pobol sydd yn lecio'r math yna o beth yn meddwl bod stwff gwahanol yn snobyddlyd?**

Ma' hyn yn bwysig iawn achos y peryg o snobyddiaeth ac alienation hefyd. Y peryg ydi bod pobol sy'n lecio mynd i weld, dduda ni, 'La La Land' ne w bath felna yn teimlo bo pobol fatha fi yn snobs achos mod i'n deud 'o dwi ddim am fynd i weld honna'. A ma hynna'n groes i'r philosophy ne i'r politics dwi'n trio'i ddilyn sef dangos fod pawb i fod i gal

rhan yn y sgwrs a'r syniad ma o wrando ar leisiau eto. Felly mae o'n densiwn ac mae o'n w bath dwi'n meddwl y dylai pob person sy'n sgwennu llyfra neu'n curadu ne be bynnag feddwl amdano fo trw'r amsar – bod o'n rhyw fath o falans rhwng bod yn rhy gul a snobyddlyd yn sut ti'n meddwl, a pheidio mynd i'r ochor arall a meddwl 'o, grêt – ffilm newydd Brad Pitt', ne be bynnag, heb feddwl be ma'r ffilm yna'n ddangos ac yn peidio'i ddangos. Mae o'n anodd ond dwi'n falch bo ti di sôn am dano fo.

**Falla bo ni'n dod yn ôl at y syniad o ffinia a ballu efo hynny? Pobol yn peidio sbio ar rai pethau, nid achos bo nhw wedi sbio arno fo mewn difri, ond am fod na ganfyddiad fod amgueddfa ne sinema arbrofol yn le di-groeso.**

Ti'n iawn, a ma' petha fel y labels ar y wal mewn amgueddfa yn betha pwysig – y label ydi'r peth sydd unai yn helpu rhywun i ddallt neu fwynhau y gwaith, neu sydd jesd yn confirmation iddyn nhw bo nhw ddim yn dallt y lle ma ac isio gadal. Felly dwi'n meddwl fod na gyfrifoldeb ar y galeri i feddwl am hynny ac i beidio mynd i fewn i'w byd bach ei hun. Mae o'r un peth efo sgwennu llyfra. Pan fydda i yn sgwennu llyfra – os bydda i – dwi'm isio dumb-io lawr be dwi'n sgwennu, ond dwi chwaith ddim isio fo fod ormod mewn byd bach o ffantasi academaidd. Dwi'n lecio llyfra sy'n camu rhwng y ddau beth yna. Dwi'n meddwl ei fod o'n challenge ond dyna'r union beth dwi isio'i neud.

**Ma'n anodd dydi. Ond dwi'n cytuno fod o'n w bath y dylia ni neud. Be s'n digwydd ym myd ffilmiau neu arddangosfeydd rŵan ta? Rwbath diddorol?**

Cwestiwn anodd. W bath dwi di sylwi blwyddyn yma – dio'm yn gyffrous - mae o bach yn broblematic ella – ond o'n i yn Siapan fis Hydref ar gyfer gŵyl ffilm dogfen. Ona lot o ffilmia odd yn fwy na pump awr ne bron yn chwech awr a nath hynna 'nharo fi, a dwi'm yn meddwl mod i'n excited amdano fo! Mae o'n fwy o sialens ond dwi'n meddwl ei fod o yn ddifyr i feddwl be ydi ffilm, a pha mor hir y dylsa fo fod. Faint o sylw o ran amsar rhywun allith o'i gymryd a'i ofyn cyn i rhywun gerddad allan o'r sinema neu sbio ar y rhaglen a deud 'o god, chwech awr? no we bo fi am fynd i weld y ffilm yma'. Neu bod o'n newid bywyd rhywun a'u

bod nhw fel arfar yn sbïo ar ffilm awr a hannar ac yn meddwl fod o'n iawn ac yn mynd adra ac yn cario mlaen efo'u bywyd. Ond os ydyn nhw'n aros am chwech awr ella na nhw rili newid eu meddwl, neu y bydd o'n fwy o brofiad iddyn nhw. Eto, dwi di gweld ffilmia sydd di newid fy mywyd i a ma nhw'n bedwar munud o hir—haiku yn hytrach na Tolstoy. Mae o'n w bath i neud efo'r fformat digidol achos fedri di jesd cadw'r camera i fynd a dio'm yn costio pres rili. Ond ia, dwnim os dio'n beth da ne ddim.

### Sgin ti gyngor o ran mynd i fewn i fyd ffilmau ne guradu?

Fy nghyngor i fasa i sbïo ar lot o ffilmia – a dwi'n gw bod fod hyna'n anodd i bobol sy'n byw yng nghefn gwlad – does na ddim sinemas, wel dos na'm llawar o sinemas fel yr HFA yn nunlla. Ond gan fod gen fwy o bobol WiFi ne'r we, sa nhw yn gallu ffendio petha ar lein ac yna dechra gwyllo ffilm bob dydd. Dwi'n sgwennu nodyn o be o'n i'n ffendio'n drawiadol ne'n annoying wrth wyllo. Wedyn fedri di ffendio be ti'n lecio a be ti ddim yn lecio, a mae o'n helpu pan ti'n dechra sgwennu am ffilmia ne pan ti'n siarad efo rhywun, curadur ne rhywun yn y maes, a ti'n dallt y context yn fwy. Ma 'na lot o drafod — 'o, ti'n gw bod am y

ffilm yma, ne ti'n cofio am y ffilm yma' ne be bynnag. So os ti di gweld ffilms elli di fod yn rhan o'r trafod. Ond yn bwysicach na hynny mae o'n fwy am ddysgu dy lygad a dy ffordd o feddwl ac ymarfar – mae o fatha ymarfar corff i sbïo ar ffilm, ne ddarllan ... darllan barddoniaeth. I ddechrau arni ti'n darllan cerdd a ti tha 'be? Dwi'm yn dallt'. Ond wedyn, os ti'n dechra ddarllan yn fwy aml, a darllan am farddoniaeth; mae o'r un peth â darllan am ffilmia. Ti'n dechra cal rhyw hooks o feddwl 'o, allai weld y techneg yna, ne ddallt pam bo nhw'n g'neud hynna', a ti'n dechra mwynhau nhw. Os allwch chi fynd i drips i galeris neu i weld ffilm mewn sinema mae o'n brofiad gwahanol, achos ma na wahaniaeth rhwng sbïo ar ffilm ar laptop a gweld un go iawn yn y sinema ne mewn galeri installation ond wrth gwrs ma teithio i weld arddangosfeydd yn costio pres a chymryd amser.

### Ar hyn o bryd dwi'n gw bod fod gen ti arholiadau, ond be sydd ar y gweill fel arall?

Flwyddyn nesa neu yn yr Hydref dwi'n gobeithio gneud w bath efo ffilmia dogfen arbrofol sydd yn ymwneud â Siapan a'r syniad o weathering yn Saesneg – so, weathering a storm – rhyw fath o oroesi.

Ond os dio'n dŷ sy'n weathered ma na farciau tywydd arno fo ond bod o dal yna, a dwi'n cymryd y symbol yna i feddwl am Siapan ar hyn o bryd ar ôl Fukushima, a'r bybl economaidd. Ma'r economi yn fflat yno rŵan; ma' 'na boblogaeth hen, hen – sa'm llawar o bobol yn cal babis. Ddim mod i di meddwl am thema a sbïo am ffilms, ond y ffordd arall rownd ydi bo ni'n sbïo ar lot o ffilms a bo nhw i gyd i neud efo'r syniad o survival ond bod na farcia o rhyw fath ar bobol neu ar dir ... ia, bod na hoel w bath yna. Dwi'n slo bach yn gweithio ar hynny, ac wedyn ym mis Ebrill dwi'n mynd i Baris i gyflwyno yn y Sorbonne mewn cynhadledd – trafod cerddad – a dwi'n dechra meddwl rŵan am guradu rwbath sy'n ymwneud efo cerddad mewn ffilm. Ma gin i ffrind sy'n gweithio yn Sweden fatha curadur a sa'n ddifyr gneud cyfres o ffilms yn y galeri yn fannu. Ond breuddwydion di'r rhein ar hyn o bryd.

### Fe fydda i, ac Y Stamp, yn dilyn hanes y breuddwydion hynny gyda diddordeb.

[beccavoelcker.co.uk](http://beccavoelcker.co.uk)

## MARI ELEN a LLŶR TITUS YMATEB – GWAITH LORA GWYNETH

Da ni'n byw mewn oes newydd - yr oes ddigidol... Mae'r delweddau sy o 'mlaen i yn gneud i mi deimlo'n anghyfforddus; mae na rywbeth seedy a grotesque am y lluniau, nes i mi deimlo'n hun yn mynd yn goch yn sbïo, achos o'n i'n teimlo "Dwi ddim i fod i weld hyn".

Incognito.

Cau drws

Llenwi cracia efo stêm a

dod a'r bleinds i slashio croen y ffenest.

*Ma sŵn dŵr fel sŵn dail dydi rili*

Hel staenia llgada i geg y plwg,

Paid a sbïo.

Plís.

Coch ydi lliw y paent yn y lluniau, sydd yn gneud i chi feddwl am waed yn syth, sydd efallai yn symboleiddio misglwyf, ond i fi, dwi'n gweld trais.

Winias!

Cochi dan y dŵr,

Sgwrio'n goch.

Ffyc.

O dan y cnawd budur ma na asgwrn

gwyn glan.

*N'rwla, weldi?*

Sgwrio.

Ffyc.

...ac mae gweld y paent coch yn llifo i waelod y gawod yn gneud i mi feddwl bod y ferch yn trïo golchi ei phechodau ... mae o'r teimlad euog a budr yna ti'n gael ar ol i rhywun ddweud rhywbeth anwedus amdanat ti heb dy ganiatad, dy gyffwrdd mewn ffordd dylie bod nhw ddim ... y teimlad ych a pych yna lle ti'n mynd drost be ti di gneud a di ddweud gannoedd o weithia, achos ti'n poeni "Shit, oni'n gofyn amdana fo?".

*Golcha'r bacha budron na, cythral.*

Cyn byta. R'ôl cachu.

Mam de.

Bacha budron Glas.

Byrstio beiro.

*Sori dio rioed di digwydd o'r blaen.*

Clais glas, du. Llyn.

Gwasgu.

Mam de.

Ac er bod ôl y dillad gwely ar groen yn llacio,  
A bora'n mynd i gefn y washing mashîn  
Mi fydd na goffi  
a briwsion yn dal i hel,  
mi folchai, ond geith  
y paent  
aros.



(gallwch weld holl ddarnau Lora yn y casgliad yma mewn lliw llawn ar ein gwefan - [ystamp.cymru](http://ystamp.cymru). Mae hi hefyd yn postio ei gwaith ar ei chyfrif Instagram - [@loraajh](https://www.instagram.com/loraajh))

# IESTYN TYNE TAIR CERDD FER

## LLANDDWYN

Yn offerendy'r ffurfafen  
mae cynffonau gwartheg yn ysgwyd  
fel gynnu myneich yn y gwynt  
a gleiniau dwfn eu llygaid  
yn cyfri paderau'r môr

dim ond pair berw'r bae  
a llygaid gwag bythynnod gwyn  
sy'n dyst i'w pererindod  
distaw, o dusw i dusw.

03.01.18

## AZUR

(i Juan Gorriti a Txaro)

Bûm yn cerdded heddiw,  
eiliadau o erchwyn y byd;  
gwyliais ddau gariad  
yn hel plu  
a dwy bluen fel dau gariad  
yn disgyn ger y dŵr.

Edrychodd hen wŷr draw  
a wylo trwy'i farf  
yn dawelach na throead sawdl  
y ferch oedd yn cau'r siwteri ar  
fasnach denau'r dydd  
â'r gwynt yn chwythu blawd  
o gefn ei llaw.

Aberystwyth, 08.02.18

## PAZ

Rhywsut,  
crëodd y bom ddarn o gelf  
o'r strydoedd hyn; taenu  
paderau ei frwsh ar eglwys  
ac ysgol a thŷ

ar hap, fel y dyn cyntaf hwnnw  
a drawodd ddwy garreg ynghyd  
i'w torri, a chanfod tân.

Gernika, 27.10.17



# AILBOBI JONES

Yn y golofn y tro yma, **Sam Jones** sydd yn trafod gwaith **T. Hudson Williams (1873 - 1961)**, ysgolhaig, ieithegydd, a brodor o Gaernarfon a fu'n dadlau efo John Morris Jones yn stesion trenau Penygroes am dafodiaith y Cofis!

## SAM JONES


## POLITICS IEITHYDDOL A DIC ABERDARON O GAERNARFON

*Politics, politique, Politik, polityka, poliitika, gwleidyddiaeth...*

Bydd pob Cymro a Chymraes sydd wedi mentro dysgu iaith arall, ac eithrio'r Saesneg, yn ymwybodol fod yna drysorfa o eiriau rhyngwladol sydd wedi bwrw gwreiddiau mewn sawl iaith Ewropeaidd. Mae'r broses o fenthg a chymathu geiriau estron yn rhan annatod o fywyd pob iaith, a gellir ystyried rhai geiriau – y gair *politics*, er enghraifft – yn rhan o'r etifeddiaeth Ewropeaidd. Wrth gwrs, i raddau helaeth, gwrthod yr etifeddiaeth hon a wnaethom yn y Gymraeg, gan gredu fod angen bathu gair cynhenid ar gyfer pob gair benthg.

Hyd heddiw, rydym yn parhau i fathu geiriau cynhenid yn beiriannol. Yn gymharol ddiweddar, cyflwynwyd geiriau fel 'Gweplyfr' a 'Trydar' i'n hiaith. Bywyd byrhoedlog a gafodd 'Gweplyfr' cyn disgyn drwy'r rhwyd, ac mae 'Trydar' bellach wedi'i ddifreinio gan y cyfryngau. Ofn bod ein hiaith yn Seisnigo sy'n ein cymell i fathu'r geiriau hyn, ynghyd â gwatwar pobl anwybodol sy'n gofyn cwestiynau dwl fel beth ydi'r gair Cymraeg am *car neu Portugal?*

Nid beirniadu ein traddodiad o fathu geiriau cynhenid ydi diben yr ysgrif hon, ond yn hytrach, ystyried rhai o sylwadau T. Hudson-Williams amdano. Bu T. Hudson-Williams, yr ysgolhaig amryddawn o Gaernarfon, yn Athro Groeg Prifysgol Bangor rhwng 1904 a 1940, ond doedd cylch ei ddiddordebau ddim yn cwmpasu astudiaethau clasurol yn unig. Roedd yn ieithydd penigamp a meistrolodd ryw bymtheg iaith yn ystod ei fywyd. Does ryfedd i'r wasg Gymraeg ei fedyddio'n 'Ddic Aberdaron o Gaernarfon'! Defnyddiodd ei ddawn ieithyddol arbennig i gyfieithu rhai o gampweithiau llenyddol Rwsia i'r Gymraeg, gan gynnwys gweithiau Pwshcin, Gogol, Tolstoi, Dostoieffski a



Llun: **Janice Ann Jones**

Tshechhoff.

Yn wahanol i lawer o'i gydoeswyr, roedd ganddo agwedd fodern, ryddfrydol at yr iaith Gymraeg, a gellir crisialu'r agwedd hon drwy gyfeirio at ddadl a gafodd gyda John Morris-Jones yn stesion trenau Penygroes. Ceir yr hanes i gyd yn *Atgofion am Gaernarfon* a gyhoeddwyd yn 1950. Yn ôl T. Hudson-Williams, 'ni fynnai'r Athro

John Morris-Jones gredu ein bod ni yn y dref yn dweud *chwwthu* (w gytsain o flaen w lafariad).' Wrth gwrs, gwyddai Syr John yn well na'r Cofi amlieithog! Ceir tinc o feirniadaeth ar agwedd John Morris-Jones at iaith wrth i T. Hudson-Williams ddweud: 'Dylai'r ieithydd gychwyn trwy chwilio am yr hyn y sydd, nid am yr hyn a ddylai fod; gall esbonio wedyn.'



John Morris-Jones

Roedd T. Hudson-Williams yn credu fod gan yr iaith lafar hawl i dyfu'n organig yn ôl gofynion yr oes, ac roedd ganddo ddirmyg tuag at unrhyw ymgais i rwystro hynny. Mynegodd sawl gwaith ei bryder ynglŷn ag effaith safonau llenyddol ar y Gymraeg llafar a'i chyfoeth o dafodieithoedd unigryw. Dywedodd yn *Atgofion am Gaernarfon* fod 'llafar gwlad yn diflannu dan ffon haearn addysg.'

Beth, felly, am eiriau benthg? Wel, roedd T. Hudson-Williams yn eithaf hoff o fathu geiriau cynhenid yn y Gymraeg. Wedi'r cyfan, nid trwy fenthg yn unig y dylai iaith dyfu. Mewn erthygl a gyhoeddodd yn 1948, mae'n mynegi ei siom fod llawer o eiriau cynhenid, neu eiriau 'gwneud' rhagorol wedi diflannu. Trodd 'deurod' yn 'beisic!', 'gwydrau' yn 'sbeclol', a throdd 'cadach pen pric' ei nain yn 'ymbarel barchus'!

Ond y broblem i T. Hudson-Williams oedd ein tuedd yn y Gymraeg i ystyried y gair cynhenid yn safonol a'r gair benthg yn ansafonol. Yn aml iawn, mae hyn yn ychwanegu at y gagendor sy'n bodoli rhwng yr iaith lafar a'r iaith lenyddol. Ystyriwn un enghraifft amlwg. Hyd y gwn i, mae'r rhan fwyaf o'r ieithoedd Ewropeaidd yn defnyddio ffurfiau o'r gair Ffrangeg *restaurant*, ond nid felly iaith y nefoedd. 'Bwyty' a ysgrifennwn yn y Gymraeg, er mai *restaurant* a glywir gan fwyaf ar lafar.

Mae'r natur ddeddfol hon yn mynd i groes i syniadau T. Hudson-Williams am ddatblygiad naturiol iaith. Dywedodd un tro mai 'gwas nid meistr iaith yw'r gramadegwr, nid oes gan neb hawl i gynnu ei getyn o flaen y tân i lunio iaith yn ôl ei dyb ef am yr hyn sydd iawn.' Yn ystod y 1940au, pan oedd crafangau ceidwadol John Morris-Jones yn parhau i gydio yn ein llên, a chlasuraeth Saunders Lewis yn dechrau ennyn edmygwyr, dewisodd yr Athro Groeg herio'u syniadau dylanwadol drwy gyfieithu dramâu Rwsseg i'r hyn a alwodd Cynan yn 'rollicking Caernarvon Welsh'. Daeth iaith y Cofi yn gyfrwng iddo fynegi syniadau rhai o brif lenorion Rwsia. Gyda hyder ieithydd medrus, dewisodd fritho'i gyfieithiadau gyda llawer o eiriau Saesneg trawiadol fel 'bildio', 'hosbitol' a 'rŵm' (stafell).

Go brin y byddai pob un o'n beirniaid Eisteddfodol heddiw yn fodlon derbyn y fath 'fratiaith' neu 'Wenglish' yn ein llên. Mae'r defnydd o'r Saesneg yn parhau i godi gwrychyn rhai beirniaid Eisteddfodol hyd heddiw. Cymerwch olwg drwy ddalennau *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau'r Eisteddfod Genedlaethol* ac fe welwch mor aml y mae'r defnydd o'r Saesneg yn cael ei gondemnio, a hynny'n aml iawn heb unrhyw ymdrech ddeallusol i ddeall pam fod yr awdur wedi eu defnyddio. Yng ngolwg y beirniaid hyn, mae geiriau Saesneg yn ymosodiad ar deithi cynhenid ein hiaith.

Eto, rhaid peidio â bod yn rhy lawdrwm â'u sylwadau – mae ganddynt reswm dilyn i bryderu fod ein hiaith yn Seisnigo. Gall iaith fwyafrifol fenthg yn ddibryder, ond mae'r Gymraeg dan fgythyriad y Saesneg, ac yn aml iawn gwelir geiriau Saesneg yn disodli geiriau Cymraeg brodorol digon cyffredin.

Er gwaetha'i barodrwydd i ddefnyddio geiriau Saesneg yn ei gyfieithiadau, mynegodd T. Hudson-Williams bryder ynglŷn â'r duedd hon. Gyda'i bersbectif rhyngwladol nodweddiadol, rhybuddia fod 'gormod o eiriau a phriod-ddulliau benthg yn andwyo iaith ac yn newid ei hagwedd nes colli ohoni ei nodweddion cynhenid yn ei chystrawen yn ogystal ag yn ei ffurfiau gramadegol a'i geirfa.' Dyma a

ddigwyddodd yn yr iaith Albaneg, meddai; disodlwyd nifer syfrdanol o'i geiriau brodorol gan Roeg, Lladin a Thwrceg.

Yng ngwaith T. Hudson-Williams, felly, ceir agwedd gytbwys a deallus at y defnydd o eiriau benthg yn y Gymraeg, ond mae deuoliaeth i'r agwedd hon. Gwelir ar y naill law bryder ieithydd cenedlaetholgar sy'n ceisio ein rhybuddio rhag disodli geiriau Cymraeg cyffredin gyda geiriau Saesneg. Ar y llaw arall, gwelir cyfieithydd modern sy'n mynnu ymgorffori nodweddion yr iaith lafar, fyw yn ei gyfieithiadau, gan gynnwys geiriau Saesneg.

Ym mhob oes ac ym mhob diwylliant ceir beirniaid sy'n gweld iaith yn dirywio, nid yn esblygu. Iddyn nhw, mae iaith y gorffennol yn gyfoethocach nag iaith y presennol. Ond dylai'r Cymry sy'n arddel y syniad rhamantaidd hwn ystyried fod yna lai o eiriau Saesneg nag erioed yn ein hiaith, a hynny oherwydd y Gymraeg safonol a ddsygir yn ein hysgolion. Mae'r awydd i buro ein hiaith yn sicr wedi cael dylanwad ar fy nghenhedlaeth i, nes ein bod yn siarad tafodiaith fymryn yn wahanol i'n cyn-deidiau. Trafod *politics* fyddai T. Hudson-Williams; trafod 'gwleidyddiaeth' fydda' i.



Pa lenorion anghofiedig yr hoffech chi weld eu gwaith yn cael ei ailbobi?

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com) // [@ystampus](https://www.instagram.com/ystampus)

HOLLY GIERKE

## 3 DARN O LÊN MEICRO

## MENTRO

Dim ots pa mor galed y ceisia crafangau ei threfn ddyddiol gydio yn ei hysgwyddau, i'w hudo â ffug hapusrwydd ei llwyddiannau sy'n caniatáu bywyd a gyrfa daclus, breuddwydia o hyd am gael dianc. Mentro i geisio byw'r bywyd y bu'n breuddwydio amdano erioed. Yn ystod ei hawr o lonyddwch boreol ar y lôn y daw'r aflonyddwch i'r arwyneb fel arfer, pan fo'r meddwl yn cael rhyddid i grwydro. Neu fin nos, pan orwedda'n llonydd yn ei gwely yn effro, ac yntau'n chwynu'n braf wrth ei hochr. Ond gyda hithau bellach yn gaeth i fysedd y cloc – wedi ei hymrwymo i filiau diddiwedd a balchder ei nain wrth iddi frolio i'r byd a'r betws am lwyddiannau ei hwyles annwyl – y mae digon o law yn diferu arni i dawelu'r tân oddi mewn sy'n ceisio dianc. Â'r llinellau'n dyfnhau o amgylch ei llygaid daw'n anoddach dod â'r peth i'r wyneb i weld y darlun llawn o beth allai fod. Dros amser, daw'r ymdeimlad o lawenydd a chynnwrf wrth freuddwydio am yr uchelgais yn ddigon i roi boddhad rhwng prysurdeb realiti, fel bod hynny'n ddigon ynddo'i hun. Daw dychmygu sut deimlad fyddai'n cynnau digon o fflam oddi mewn i oleuo ei henaid rhywfaint, ond nid yw'n disgleirio fel y dylai. Felly dyma suddo'n ddyfnach i'r bywyd eilradd y gwnaeth hi addo iddi hi ei hun na fyddai'n ei dderbyn.

## CACEN GROESAWU

'Eistedda di i lawr gyda thafell o gacen rŵan, 'mechan i, cyn i'r cwsmeriaid nesaf gyrraedd. Ti 'di gweithio'n galed bore ma – ti'n ei haeddu o. Cyma filcshêc 'fyd.

'Dim diolch, dwi'n iawn.'

'Na, wir 'wan. Helpa dy hun, cariad.'

Creulondeb yw'r caredigrwydd o gynnig bwyd iddi hi bellach. Ofna ymddangos yn ddigywilydd ac anniolchgar â hithau'n cynnig ei chroesawiad iddi ar blât. Ond mae hynny'n well na bod Mrs. Edwards yn synhwyro'r gwir reswm dros wrthod y gacen. Y gwir reswm na all stumogi tafell o gacen, nac unrhyw damaid nad yw o fewn ei rhestr o fwydydd 'diogel' – a'r bwydydd hynny wedi eu pwysu i'r gram agosaf o fraster a'u cyfrifo i'r union galori. Ni fyddai Mrs. Edwards yn deall ystyfnigrwydd y bwystfil erchyll sydd wedi meddiannu ei henaid. Byddai'n rhoi unrhyw beth i allu torri'r ddefod, i blesio ei bos newydd ar ei shifft gyntaf y bore Sadwrn hwn. Roedd adeg un tro pan nad oedd dim byd yn well ganddi nac anwesu briwsion medal sbwng Fictoria yn ei cheg nes iddo ymdoddi yn un lwmp cynnes, melys gyda llymaid o baned poeth o de. Erbyn hyn mae'r syniad hwnnw yn hunllefus.

'O, diolch o galon i chi, ond dwi'n teimlo'n reit sâl i fod yn onest. Annwyd ar ei ffordd — sori.'

Er gwylltio Mrs Evans ar ei diwrnod cyntaf yn y caff, mae hynny'n llai o ofid na gorfod bwyta'r gacen.

## CYFRINACH

Bu dwy flynedd i'r diwrnod hwn ers iddi wneud y penderfyniad. Dau ddewis, dau ganlyniad cwbl wahanol. A'r noson hon, wrth daenu'r haen o bowdwr yn drwchus dros ei hwyneb o flaen y drych, gall gadw'r bwgan yn dynn tu ôl i'r mwgwd am y tro, a mwynhau ei hun gyda'r merched yn y bar. Dim ond weithiau y daw'r bwgan i'r arwyneb — ar y dyddiadau arwyddocaol, neu wrth weld lluniau ei nai bach ar Facebook. Yr un cwestiynau sy'n trywanu ei hymennydd wrth geisio mynd i gysgu: tybed pwy y byddai o neu hi wedi bod? Llofruddwyr yw'r merched sy'n gwneud y ffasiwn beth yw barn ei Mam erioed, ac felly ddaw hi fyth i wybod amdano. Na chwaith ei ffrind gorau a gollodd ei mab yn chwe niwrnod oed. Ond does dim euogrwydd mawr i'w deimlo oddi mewn gan y gwyddai ar y pryd mai penderfynu byw ei bywyd ei hun yn gyntaf oedd y penderfyniad cywir.

# ADOLYGIADAU

GETHIN GRIFFITHS | CADY DAFYDD | SIÔN HYWYN  
GRUG MUSE | OWAIN EVANS | SOPHIE ANN HUGHES

## AM NEWID

Dana Edwards

Y Lolfa ~ £7.99



Cyn mynd ati i ddarllen *Am Newid* gan Dana Edwards roeddwn yn llawn disgwyliaid gan ei bod yn trafod bywyd menyw drawsrywiol wedi iddi symud yn ôl o Lundain i'w hardal wledig enedigol. Hyd y gwn i nid oes nofel arall yn y Gymraeg sydd yn ymdrin â phobl draws, ac yn hynny o beth roedd wir angen y nofel hon ar lenyddiaeth Gymraeg. Trwy gymeriad Ceri llwyddda'r awdur i ymdrin â'r pwnc mewn ffordd sensitif a deallus, gan drafod y llon a'r lleddf yn ei bywyd.

Ymdrinia'r nofel â sawl thema gymhleth, gyda thrawsrywioldeb yn un ohonynt. Teimlaf ar adegau fod yr awdur wedi taflu gormod o themâu i'r nofel ac y byddai'n well petai wedi canolbwyntio'n llawn ar un ohonynt. Mae rhywioldeb yn thema gymhleth ac weithiau teimlaf nad yw hyd y gyfrol yn caniatáu iddi fynd i'r afael yn llawn â'r cymhlethod hwnnw na'i ddatblygu'n llwyr.

Un o gryfderau'r nofel yw'r cymeriadu. Daw'n amlwg fod Dana Edwards yn adnabod y math o gymdeithas y gosodwyd y nofel ynddi, ac

o achos hynny yn gallu creu cymeriadau sydd yn gweddu i'w hardal ac sydd yn gredadwy. Llwyddda i greu cymeriadau aml-haenog, a'r amlycaf ohonynt yw Grace, cyn-gyfaill ysgol i Ceri a drodd ei chefn arni. Grace yw asgwrn cefn y gymdeithas (neu un sy'n hoff o feddwl hynny), ac nid yw'n hawdd iddi dderbyn Ceri yn ôl i'r gymdeithas, heb sôn am i'w changen Merched y Wawr. Er na allaf hoffi Grace, ni allaf chwaith wadu nad oes peth anwylded yn perthyn iddi. Haws yw creu cymeriad sydd naill ai'n gyfan gwbl dda neu ddrwg na chreu cymeriad sydd yn meddu ar rinweddau o'r ddau gategori. Un o'r rhannau sy'n aros yn fy nghof yw sgwrs rhwng Grace a'i gŵr, Siôn, yn cofio yn ôl i gêm actio idiomau yr oeddent yn arfer ei chwarae pan oedd Alaw, eu merch, yn iau.

Mae'r berthynas rhwng Alaw a Ceri yn dangos gallu'r awdur i gyfleu'r anwylded hwnnw yn yr un modd, a'r deialog rhyngddynt yn gwbl naturiol. Mae'r defnydd o dafodiaith ddeheuol yn y deialog yn caniatáu i'r sgwrsiau lifo'n rhwydd. Serch hynny, mae'r defnydd o dafodiaith yn y naratif ei hun yn gallu mynd yn anodd ei ddeall ar brydiau, ond mae'n fater o farn a yw hynny'n ffaeledd neu'n ychwanegiad.

Wrth ofyn i mi fy hun a wnes i fwynhau *Am Newid*, mi rydw i wir eisiau gallu dweud fy mod i wedi, ond mae rhywbeth ar goll. Gan amlaf yr hyn sydd yn dweud wrthyf fy mod wedi mwynhau llyfr, neu fod llyfr yn cael effaith arnaf, yw fy mod yn ei ddarllen i gyd ar unwaith. Er faint yr oeddwn yn trio gwneud hynny gyda'r nofel hon, ni fedrwn. Roedd rhai rhannau ohoni yn rhagweladwy ac eraill i weld yn dod allan o nunlle fymryn. Er bod y nofel yn symud yn ei blaen yn sydyn ac nad yw'r darllen yn araf, roedd rhyw ddiffyg yn y cysylltiad emosïynol rhyngof i, fel darlennydd, a'r stori. Mae gallu'r awdur i greu stori a chyflwyno themâu sydd wir angen eu trafod yn amlwg, ond roedd rhannau lle'r oeddwn yn credu ei bod wedi gorlwytho'r nofel fymryn yn ormod. Serch hynny, mae hi werth prynu copi a mynd ati i farnu eich hunan.

## ALL FOURS

Nia Davies

Bloodaxe ~ £9.95



Y mae cyfrol gyntaf Nia Davies wedi ei disgrifio fel cyfuniad o delynegrwydd a'r Avant Garde. Yn sicr, dyma fath o farddoniaeth fydd yn anghyfarwydd i ddarlennydd sy'n fwy cyfforddus o fewn y byd barddoniaeth Gymraeg ei iaith. Ni enillodd y math hwn o farddoniaeth gynulleidfau ymysg y Cymry Cymraeg - eto.

Dyma farddoniaeth sydd wedi rhwygo ymaith ganllaw diogel ystyron penodedig. Mae o'r math o farddoniaeth lle ryda chi'n cripan ymlaen yn ansicr, yn teimlo'ch ffordd, eich bysedd chi'n rhedeg ar hyd bob math o bethau tlws, sawrus, meddal, gloyw, ond na all eich llygad yn iawn roi enw i'w ffurf. Mi faglwch chi dros ambell emrallt, neu ddarn o gaws blasus, neu mi glywch ryw hanner sŵn chwerthin yn y peller. Rhywbeth chwareus a chellweirus ydi o.

Mae o hefyd yn fath o farddoniaeth lle mae gofyn mentro. Mae o'n flinedig a rhwystredig i'w ddarllen, ac eto, roeddwn yn cael fy hun yn cael fy nenu'n ôl eto ac eto at y tudalennau. Nid

yw'r cerddi hyn mor niwlog i droi yn ryw bys slwj o bethe ymhongar, ond mae gofyn i'r darllenydd fentro i drystio ei reddf pan fo llais awdurdodol y bardd yn bell i ffwrdd. Dyna pam fod y math yma o farddoniaeth yn troi ar rai pobol mae'n debyg, ond fel caws cryf, mae ganddo fo'r nac yna o dyfu arnoch chi yn araf bach. Yn y gyfrol hon yn benodol, mae telynegrwydd a hiwmor Nia Davies yn gwau drwy'r cerddi i gyd, ac yn ein denu i mewn i'w byd yn chwareus, dryslyd. Nid bwlio a cham-drin ystyr mae hi, ond gwneud dryga efo fo, ac mae'r mwynhad amlwg mae hi'n ei gael o chwarae efo geiriau yn heintus.

Y mae'r gyfrol wedi ei rhannu yn chwe rhan, oll yn gasgliadau o gerddi dan deitlau gwahanol: 'You will never guess my name'; 'Happy Birthday to me'; 'Listen'; 'Lemon Yellow epithet'; 'from Çekoslovakyalılaştıramadıklarımızdanmış iniz or LONG WORDS'; a 'try, for a variety of reasons, a sledgehammer'.

Chwedloniaeth sy'n clymu cerddi 'You will never guess my name' at ei gilydd, o Mossy Coat a Baba Yaga i gerddi damhegol, epigramatig. Yma, a thrwy weddill y gyfrol nodweddir nifer o'r cerddi gan agwedd tafod yn y boch, siarad plaen, tynnu coes am ryw. Yn wir, yn 'Happy Birthday to me' ceir cerdd gyfa ar y pwnc, gyda'r enw di-lol *Poem with sex*:

sex as the great destroyer and creator  
as the opposite of death drive  
the ex libris of sex is a palm with a word or a letter on it  
i search 'piano' and 'open' on Pinterest  
sex is happening even when you think it isn't

Ceir yr un math o sgwennu synhwyrus, chwareus yn y gerdd *Tiny nudist colony*, lle mae hi'n medru llenwi'r weithred o fwyta apricots efo rhyw egni nwydus.

I am in the business of eating apricots nakedly-  
you see.  
All the times I sit here  
I am treating you seedy. Stone stripped from flesh  
and dunked in the brine.  
  
Lobsters communicating! Have them.  
  
Dried salted limbs! Take them.

Fydd y profiad o fwyta apricots byth yr un fath eto. Ond nid y gwamalus yn unig a geir yn y gyfrol. Yn 'Lemon yellow epithet', troediwn y dirdynol mewn cerddi fel *the mediums of viktor ullaumann; 18 a Dear Diary*. Ac yn 'from Çekoslovakyalılaştıramadıklarımızdanmış iniz or LONG WORDS' cawn rai o gerddi mwyaf trawiadol y gyfrol, o ran teitlau o leiaf. Dyma ddyfyniad o'r gerdd *the most emotionally disturbing (or upsetting) thing: Pinakanakapagpapabagabag-damdamin (Tagalog)* sydd bron cyn hired â'r teitl:

i was upset by being bullied recently by a middle-aged man but not really disturbed  
if anything it was a positive therapeutic experience  
because i could walk away which can't really be said  
for my classmate beaten into a coma and then dead from her injuries.

Yn y rhan yma o'r gyfrol mae hi'n cymryd geiriau hir o ieithoedd eraill, a chreu neu ganfod ystyron ynddynt. Defnyddir y gair *Pinakanakapagpapabagabag-damdamin* o'r iaith Dagalog i ymdrin â'r profiad o golli ffrind i drais domestig. A dyna o bosib grynhoy yr hyn sy'n gwneud y gyfrol hon yn un mor arbennig. Llwydda'r bardd i ddefnyddio'r annisgwyl a'r ymddangosiadol hurt i ddod â ni yn annisgwyl o agos at y profiadau dynol, poenus a phleserus gyfarwydd rheini fel ei gilydd.

Dyma gasgliad egniol, chwareus a theimladwy. Mae'n heriol i'w mwynhau os mai chwilio am gerddi i'w 'deall' yda chi. Mae 'na fwy nag un ffordd o ddeall, ac o ganiatáu i ni'n hunain ambell eiliad o abswrdaeth gwirion bost, falle y dysgwn ni i drystio rhai o'n greddfau'n well.

## 7 LLAIS

Karen Owen

[Hunan gyhoeddiad ~ £10.00](#)



**Ydych chi erioed wedi cael rêf hefo Gwilym Owen tra mae o'n eich annog chi i faddau pawb am bob dim?** Ydych chi erioed wedi clywed Cefin Roberts yn dweud Sachin Tendulkar? Ydych chi wedi clywed llais Alun Ffred Jones yn *tripio* dros gerddoriaeth atmosfferig Titus Monk? Croeso i fyd amlgyfrwng, *bizarre* Karen Owen.

Ers gweld Mike Garry yn perfformio ei gerddi i gyfeiliant cerddorfa siambr yng Ngŵyl Rhif 6 ychydig o flynyddoedd yn ôl, mae gen i deimladau cryf dros wthio'r ffiniau rhwng barddoniaeth a cherddoriaeth. Gan i'r testun ymylu ar fod yn ddeg (neu saith) gorchymyn i oes y newyddion ffug, mae cerddoriaeth electronig yn gweddu'n berffaith, er iddo swnio fel rhywun yn rantio ar ôl gwthio botwm 'demo' ar allweddell Casio weithiau. Ar brydiau eraill, pan mae'r cerddor yn rhoi effeithiau ar y llais ac yn ei blethu i mewn i'r gerddoriaeth, mae'r berthynas yn gweithio'n llawer gwell, ac yn creu amwysedd yn y ffiniau hyn yr ydym yn ceisio eu dinistrio. Mae'r gerddoriaeth yn effeithiol pan y mae'n creu awyrgylch yn hytrach na chynnig *groove*, o ganlyniad i hynny.

Mae'r trac agoriadol, 'Cofia' (Cefin Roberts a Maureen Rhys, a cherddoriaeth Siôn Alun Jones), yn gyflwyniad addas i'r arddull y mae Karen Owen yn ei arddel drwy'r casgliad. Rhestr ydyw, mewn gwirionedd, o ffeithiau sydd yn pontio rhwng y ddau begwn hwnnw rhwng gwired ac anwired, sydd yn prysur nesàu at ei gilydd. A dweud y gwir, mi'r oeddwn i wedi dysgu llawer o

ffeithiau diddorol ar ôl y gwrandawriad cyntaf, cyn gwrandawrio gyda chlust mwy sinigaidd wedyn.

Dyna yw'r traciau eraill hefyd yn eu hanfod, ac mae 'Cofia' yn cadarnhau lle Beti George fel artist rap cudd Cymru, cyn i 'Maddau' ein atgoffa pam nad oedd Gwilym Owen yn aelod o'r Happy Mondays, Tŷ Gwydr na Diffiniad. Rhywle yn y canol, mae 'Diolcha' gan Nia Roberts ac Osian Howells yn swnio fel trac oddi ar albwm therapi i bobl sydd ofn hedfan.

Mae'r casgliad i gyd yn wleidyddol ac yn gyfredol, ac yn gwneud i chi feddwl am y byd ac ystyr bywyd. Fodd bynnag, does dim angen dweud hynny ar y clawr, nac yn y nodiadau y tu mewn iddo, gan bod hynny'n tynnu oddi ar ein dehongliadau ni o'r testun. A dweud y gwir, os nad yw cerdd yn gwneud i mi ail asesu fy marn am y byd, dydi hi ddim werth ei chlywed o gwbl. Wrth fagu hyder yn y *genre* arloesol hwn, gobeithio y cawn ni adael iddo sefyll ar ei draed ei hun heb egluro'n ormodol.

Dydy'r albwm ddim ar gyfer dilynwyr pybyr Talwrn y Beirdd, na 'chwaith i gefnogwyr mwyaf brwd y sŵn ddawns danddaearol, ond i'r rheiny ohonoch chi sydd rhywle yn y canol, efallai y gwnewch chi ddarganfod rhywbeth yn '7 Llais' wnaiff roi 'moment Mike Garry' i chi, hefyd.

## 2071

Cwmni Pendraw

Ionawr–Chwefror 2018

### CAST

Wyn Bowen Harries, Angharad Jenkins, Gwilym Bowen Rhys

**Penderfyniad digon munud ola' oedd mynd draw i Galeri, Caernarfon i wyllo '2071' ryw nos Wener, felly er mod i'n ymwybodol o'r prosiect hwn gan Gwmni Theatr Pendraw, doedd gen i fawr ddim rhagdybiaethau am yr hyn oedd i ddod. A pheth da oedd hynny 'fyd gan na fyddwn i wedi gallu ei ragweld. O gwbl.**

Doedd dim smic i'w glywed yn y stiwdio drwy gydol y cynhyrchiad. Dim sibwrdd. Dim gwingo. Dim clirio gyddfau na phesyachu hyd yn oed. Roedd sylw pawb wedi'i hoelio'n gorn ar y tri o'n blaen.

Cynhyrchiad gwahanol iawn i

unrhyw beth a welais ers tro oedd hi; darlith addysgiadol mewn gwirionedd, ond un a guddiwyd mewn creadigrwydd diddorol, ymhell o unrhyw ddifflastod. Roedd hi'n chwa o awyr iach derbyn gwrs o'r fath wedi'i chyflwyno mor weledol a chlywedol, heb unrhyw deimlad o bregeth iddi.

Wrth reswm, o'n i'n ymwybodol o faterion newid hinsawdd ac o'r risgiau sy'n ein wynebu ni. Dwi'n cofio gweithio i wleidyddion lleol yn delio efo cannoedd o ymholiadau gan etholwyr oedd yn flin bod y Llywodraeth am godi 5c o blastig bag tsiarj, neu am y newid yn nhrefniadau casglu gwastraff y Cyngor gyda'r bwriad o annog gwell ailgylchu. Dwi hefyd yn un sy'n trio ngorau i ailgylchu popeth posib, ailddefnyddio bagiau plastig a pheidio â gwastraffu ynni. Ond er hynny, profais ergyd i nghydwbybod a wnaeth imi deimlo'n ddiolchgar iawn i'm Landlord am osod paneli solar ar do ein tŷ!

Roedd Wyn Bowen Harries yn eglur ac yn amrywiol iawn ei naratif wrth iddo'n tywys drwy'r fideo pwerus a ddangosai ein dinistr ar y Ddaear y buom mor lwcus ei chael. Ond, agwedd arbennig iawn o'r cynhyrchiad oedd yr ychwanegiad o gerddoriaeth a chanu a cherddi gan Angharad Jenkins a Gwilym Bowen Rhys.

Canodd Gwilym sawl cân wreiddiol yn ogystal ag alawon traddodiadol wedi eu addasu â geiriau gwreiddiol; rhain oll yn atgyfnerthu'r neges bendant. Fy hoff gân oedd un o'r cyntaf iddo'i chanu lle soniai am gyfnod yn y dyfodol pan fydd y '*berllan 'di sychu'n grimp'* a phopeth yn ddifffraith. Roedd yn dweud writhom am geisio bwyta'n prês bryd hynny! Yn ôl ei harfer, roedd cyfeilio Angharad yn hynod effeithiol wrth i Wyn gyflwyno ar lafar; yn benodol ei defnydd eang o gyweiriau ffdil dramatig. O dro i dro, camai'r ddau gerddor o'u diddanu cerddorol i arbrofi â'u hofferynnau (rhaf arferol yn ogystal â rhaf mwy anarferol megis yr *ocean drum*) a chreu effeithiau sain oedd yn dod â'r naratif a'r fideo yn fyw, a throdd Wyn at Tai Chi wrth ddisgrifio'r haenau o'n hinsawdd a effeithir fwyaf. Roedd amser a chyd-symud y tri i'r naratif a'r fideo yn dangos hoel ymarfer i'w ganmol.


Hynod braf oedd gweld y ddau gerddor yn ymddangos mewn perfformiad go wahanol i'r hyn dwi wedi arfer ei weld ganddynt, ac fe gawson nhw ganmoliaeth a llongyfarchion gan sawl un ar y diwedd. Perfformiad

unigryw a diddorol iawn, boed â diddordeb gwyddonol mewn materion newid hinsawdd neu beidio!

## SYLLU AR WALIA'

Ffion Dafis

Y Lolfa ~ £8.99



**Wrth grybwyll enw Ffion Dafis, mae'n bur debygol y bydd wyneb yr actores yn dod i'r cof. *Syllu ar walia'* yw ei hymgais i drosglwyddo ei doniau creadigol o'r byd perfformio i bapur.**

Cawn drawstoriad eang o bynciau, arddulliau a hel atgofion yn gyffredinol. Datgana Dafis o'r cychwyn nad hunangofiant yw'r llyfr hwn; yn hytrach mai gwaith creadigol ag elfennau hunangofiannol yw'r gwaith. Er, o'r persona y mae Dafis yn ei gyflwyno i'r cyhoedd, mae'n anodd gen i gredu nad yw'r llyfr yn gwbl seiliedig ar ei hanturiaethau ar hyd y degawdau - neu o leiaf yr hyn y buasai wedi ei wneud pe bai hi wedi derbyn y cyfle.

Mae Dafis yn cyffwrdd ar nifer o bynciau dwys megis salwch, dibyniaeth ar alcohol, cymhlethdodau perthnasau carwriaethol law yn llaw â'r cyfnodau hapus megis cyfeillgarwch clos ffrindiau, strwythur teuluol a'r hyn a ddaw yn ei sgil. Er y sôn am bynciau dwys, mae Dafis yn osgoi creu naws dywyll wrth osod y gwahanol ddarnau yn synhwyrol - fel enghraifft, ceir darn am daith fythgofiadwy i Nepal a ddilynir gan ddarn dwys am sut yr ymdopia'r

traethydd â'r darganfyddiad o gancr, wedi'i ddilyn wedyn gan ddisgrifiad twymgalon o'i theulu agos a'r profiadau a ranwyd.

Un o'r darnau lle credaf ei bod hi'n serenennu yw'r disgrifiadau bywiog o'i hanturiaethau yn India. Mae'r darlennydd yn cael ei arwain ar hyd y daith gyda'r disgrifiadau crefftus yn crisialu'r sefyllfaoedd: "Mae pobol yn bwyta a chysgu ac yn prynu a gwerthu wrth feddwl am y fenter nesaf i gadw'n fyw" - trwy'r rhestru, er y symrlwydd, mae'n effeithiol i gyfleu prysurdeb a natur India fel gwlad.

Disgrifodd Dafis mewn cyfweiliad sut y bu iddi dreulio sawl blwyddyn yn creu cynnwys y gyfrol hon, sydd yn gweddu i'r thema o draul amser sydd i'w deimlo wrth ddarllen y llyfr. Treulia Dafis gryn amser yn amryw o'r darnau yn cymharu sut y buodd hi pan yn iau o'i gymharu â'r presennol. Mae'r naws o gyfaddef yn elfen gref trwy gydol y llyfr, yn enwedig ag ôl-edrychiad – sut y bu i'w theimladau a'i gofidiau lywio'r profiadau hyn.

Mae'r nofel wedi ei farchnata at ferched, a'r rheiny o gategori oed arbennig. Hyderaf y bydd ambell i wraig ganol oed yn cael boddhad mawr o ddarllen ei hanturiaethau doniol ar hyd y blynyddoedd. Wrth i Dafis ddatgan o'r cychwyn mai elfennau hunangofiannol sydd yn y llyfr, mae'r gyfrol yn osgoi cael ei neilltuo i gategori hunangofiant sgandal(aidd) fel a geir gan rai o enwogion y byd perfformio, a chaniatáu i'r llyfr gael ei farnu ar ei gynnwys yn hytrach na'r enw ar y clawr.

Mae hwn yn lyfr difyr sy'n edrych ar nifer o bynciau a phrofiadau amrywiol, gan eu cyflwyno ar ffurfiau diddorol sydd yn bachu sylw'r darlennydd. Fel un o gymeriadau lliwgar y byd actio Cymreig, mae Dafis wedi llwyddo i drosglwyddo ei phersonoliaeth ar bapur. Boed yn waith ffuglennol neu hunangofiannol, mae'n werth taro golwg ar *Syllu ar Walia*.

## HEN BETHAU ANGHOFIEDIG

Mihangel Morgan

Y Lolfa ~ £7.99



**Gwelwyd dirywiad yn amlygrwydd straeon ysbryd o fewn diwylliant prif-lif yn ystod y blynyddoedd diwethaf.** Serch hynny, mae'n genre sydd — megis y cymeriadau dirgel — yn llechu yn y cysgodion yn barod i'ch cadw'n effro pan maent yn ymddangos. Rydym yn cymryd yn ganiataol fod gwyddoniaeth yn gallu egluro popeth a gall hyn rwystro'r dychymyg rhag gofyn 'be sydd yn y tywyllwch?'

Gyda hyn mewn côf, pleser oedd darllen ymgais awdur mor adnabyddus ac annwyl i'r Cymry i lunio stori sydd a'i gwreiddiau yn nhraddodiad straeon ysbryd Cymru, ond a'i thraed yn gadarn yn y ganrif hon.

Yma cawn hanes profiadau Merfyn

Thomas, Cymro brodorol sy'n etifeddu tŷ ei fodryb ac yn penderfynu symud yn ôl i Gymru ar ôl blynyddoedd yn Lloegr. Ond daw yn amlwg nad tŷ cyffredin mohono ac mae digwyddiadau annisgwyl yn arwain Merfyn at ddarganfod gwirioneddau anghyfforddus am ei deulu, ac yn ei ddiethrio oddi wrth ei bartner a'i blant. Mae rhain themâu cyfarwydd i'r genre yma, ond gwelid stamp unigryw a chwareus Mihangel Morgan arno.

O'i gymharu â rhai o lyfrau eraill yr awdur, mae'r fformat yn fwy traddodiadol ac yn llai uchelgeisiol ar ran strwythur ond serch hynny mae ei feistrolaeth o blethu naratif ac adeiladau tensiwn i'w weld o hyd. Mae'r arddull yn ein hatgoffa o'r traddodiad o adrodd stori ysbryd ar lafar mewn ffordd arloesol a nostalgic. Yn ogystal ag ysbrydion mae cyfeiriadau cyson at bryderon cyfarwydd yr awdur am ddyfodol yr iaith ac effaith mewnfudwyr Saesneg ar gymunedau Cymreig.

Mae'r stori'n cael ei hadrodd gan Merfyn i'r adroddwr ac yntau'n ei chrynhoi ac mae'r naratif ddeuol yma, yn unol â'r adeiladu tensiwn, yn creu ymdeimlad clawstroffobig, ac yn f'atgoffa o ddarllen 'Yr Anhygoel' gan J. Aelwyn Huws a gwrando ar hen recordiau awdio o bobol yn trafod eu profiadau goruwchnaturiol.

Mae gan y nofel ddigon i'w dweud am fywyd drwy'r oesoedd ond mae'r diwedd glo yn arwyddocaol iawn i'n presennol, ac yn codi'r pwynt prudd iawn am natur ysbrydion. Does dim rhaid i chi gredu mewn ysbrydion i ddeall fod y gorffennol yn aros hefo ni i gyd.

## 👉 ADOLYGWYR! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

**dramâu**

**nofelau**

**cerddoriaeth**

**cyfrolau barddoniaeth**

**celf**

Awydd dweud eich barn yn ddi-flewyn ar dafod am gynnyrch newydd Cymraeg?  
Cysylltwch â ni!

# BETHAN SCOREY

## ADNABOD YR ARTIST



**Daw Bethan Scorey o Gaerdydd yn wreiddiol, ond mae hi'n byw yn Llundain ar hyn o bryd.** Y llynedd, cwblhaodd radd mewn pensaernïaeth yng Nghaerfaddon, ac mae hi bellach yn gweithio i gwmni penseiri yn Llundain sy'n arbenigo mewn cadwraeth a dylunio ar gyfer adeiladau hanesyddol.

Treuliodd bedwar haf yn olynol yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig yn gweithio fel gofalwr yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Yno, datblygodd ddiddordeb eang ym mhensaernïaeth frodorol Cymru. Ers hynny mae hi wedi bod yn ystyried 'tirwedd bensaernïol' Cymru, ac yn cwestiynu a ydi pobl yn ystyried pensaernïaeth fel ffordd o fynegi hunaniaeth y wlad, yn yr un modd â iaith a llenyddiaeth, er enghraifft. Mae ei hymchwil diweddaraf wedi arwain at brosiect sy'n edrych ar y dehongliad cyfoes o gestyll Edward I yng Nghymru. Tuedda i weithio dros brintiau leino gyda llaw, ond mae hi ar hyn o bryd yn mynychu cwrs wythnosol ar brintio sgrîn hefyd.

Print gan Bethan o golomendwll (culver-hole) ym Mhorth Eionon ar Benrhyn Gwyr (llun uchod) sydd ar glawr y rhifyn hwn o'r *Stamp*. Mae nifer o bobl yn

cerdded ar hyd y llwybr arfordiol ar y clogwyn uwchben heb wybod ei fod yno a'r gred yw y cafodd ei adeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan forladron

fel stordy. Mae chwedlau lleol yn ei gysylltu â'r Brenin Eionon, a gafodd ei drechu mewn brwydr a phenderfynu byw fel meudwy yn yr ogof.



Gweithfeydd Brics Porthwen | Bethan Scorey





# Y STAMPWYR

**Bethan Scorey**[@bethan\\_scorey](#) // [bethanscorey.bigcartel.com](#)

(gweler gyferbyn)

**Morwen Brosschot**

Daw o Lanbedrog yn wreiddiol. Mae'n mwynhau arbrofi a chreu o bob math yn enwedig pan fo hynny'n gyfuniad o gelf a geiriau.

**Mihangel Morgan**

Nofelydd a bardd toreithiog a brodor o Aberdâr. Cyn ymddeol, bu'n ddarlithydd ar lenyddiaeth Gymraeg yr zofed Ganrif ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enillodd ei nofel gyntaf, *Dirgel Ddyn*, y Fedal Ryddiaith iddo ym 1993. Ymysg ei waith diweddaraf mae'r casgliad o straeon byrion, *6o*, a'r nofel ysbryd, *Hen Bethau Anghofiedig*.

**Lora Gwyneth**

Mae Lora yn artist a ffotograffydd o Ddinbych sydd ar ei blwyddyn gyntaf yn astudio Celf Gain ym Mhrifysgol Leeds.

**Ceri Rhys Matthews**[@yscolan](#) // [yscolan.tumblr.com](#)

Cerddor, artist, athro, cynhyrhydd, a brodor o Dreboeth. Cafodd ei addysgu mewn celfyddyd gain yn Ysgol Gelf Abertawe a Choleg Celf Maidstone. Enillodd ei blwyf fel un o brif ffigyrau'r adfywiad mewn cerddoriaeth werin yng Nghymru - yn ogystal â bod yn gynhyrhydd mae hefyd yn bibydd, yn fflwytydd ac yn gitarydd. Mae'n gyfrifol am ysgolion alawon Yscolan a gynhelir yn Sir Benfro.

**Llio Maddocks**[@llioelain](#)

Daw Llio o Lan Ffestiniog, ond mae hi bellach yn teithio o gwmpas India, nid i 'ffeindio ei hun' ond i ffeindio amser i orffen ei nofel. Ac i dwchu ar gyrris blasus.

**Holly Gierke**

Mae Holly yn byw yn Ninbych. Astudiodd ar gyfer gradd yn y Gymraeg ac yna MA mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor. Bellach mae hi'n gweithio fel athrawes y Gymraeg, ac yn mwynhau ysgrifennu, cerddoriaeth a rhedeg yn ei amser rhydd.

**Sam Jones**

Myfyriwr PhD o Ynys Môn sy'n astudio Cymraeg a Rwsieg ym Mhrifysgol Bangor. Mae'n canolbwyntio ar gyfieithiadau Cymraeg T. Husdon-Williams o lenyddiaeth Rwsieg.

**Mari Elen**[@marielenjones](#) // [dacwmam.wordpress.com](#)

24. Cwm-Y-Glo. Licio miwsig. Licio sgwennu. Licio lot o de.

**Gareth Evans Jones**[@GEvansJones](#)

Dramodydd ac awdur. Darlithydd yn Ysgol Athroniaeth a Chrefydd Prifysgol Bangor. Enillydd Coron Eisteddfod Môn Bro Paradwys 2016 am gasgliad o ryddiaith greadigol.

**Becca Voelcker**[beccavoelcker.co.uk](#)

Arbenigydd, curador ac artist ym meysydd ffotograffiaeth a ffilm. Myfyrwraig PhD yn Adran Ffilm ac Astudiaethau Gweledol Prifysgol Harvard.

**Siôn Hywyn**[@SionHywyn93](#)

Cyn-fyfyriwr Hanes sydd bellach wedi dychwelyd i fyw i'r Groeslon ger Caernarfon. Rhostiwr coffi a barman o fri, sy'n hoff o ddarllen, cerddoriaeth, cwrw a cherdded.

**Cadi Dafydd**[@cadidafydd97](#)

Myfyrwraig Llenyddiaeth a Hanes Cymru yn yr ail flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n ymddiddori mewn llên gwerin, yn enwedig chwedlau lleol yn ymwneud â Sir Feirionnydd, yn hoff o 'sgwennu o bryd i'w gilydd, ac mae hi newydd ddechrau casglu cardiau post difyr.

**Gethin Griffiths**[@gethingriffiths](#) // [sonamsin.cymru](#)

Dydi Gethin Griffiths erioed wedi gwybod beth yn union mae o eisiau bod. Gan geisio troi ei law at flogio, at adolygu, at greu cerddoriaeth, a dilyn trywydd academiaidd, mae ganddo ormod o bethau i'w gwneud a dim hanner digon o amser. Ydi hi'n ddydd lau? Mae Gethin yn bêl-droediwr o fri heddiw.

**Sophie Ann Hughes**[@SophieAnn24](#)

Mae'n byw yng Nghaernarfon. Cwblhaodd ddarn o waith arbenigol yn astudio arwyddocâd ac effaith cyfrwng iaith mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Wedi cyfnod yn gweithio ym myd gwleidyddiaeth, mae bellach yn Swyddog Gosod Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn aelod o dîm rheoli [meddwl.org](#).

**Owain Evans**

Un o Ddyffryn Ogwen, yn hoff o deithio, cerdded y mynyddoedd a sgysiau difyr.

**Miriam Elin Jones**[@miriamelin23](#) // [miriamelinjones.cymru](#)

Llenor a myfyriwr PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Un o Gywion Cranogwen.

**Grug Muse**[@Elan Grug](#)


Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrwl gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, y llynedd. Un o Gywion Cranogwen.

**Iestyn Tyne**[@iestyn tyne](#)

Llenor, cerddor a myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd a chadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru 2016. Cyhoeddir ei ail gyfrwl o farddoniaeth, *Hedfan*, eleni.

**Llŷr Titus**

Awdur a dramodydd sydd wrthi yn astudio PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Enillodd *Gwalia*, ei nofel ffuglen wyddonol i blant wobwr Tir Na n-Og yn 2016. Y llynedd, bu'n astudio am semester yn adran Geltaidd Prifysgol Harvard.



Cofiwch fod rhifyn 3 a rhifynnau  
blaenorol eraill ar gael o

[ystamp.cymru](http://ystamp.cymru)



# Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Ffuglen Boblogaidd gyda Llwyd Owen a Dewi Prysor  
Dydd Sadwrn 14 - Dydd Sul 15 Ebrill

Cwrs Undydd: Y Caeth a'r Rhydd gyda Myrddin ap Dafydd  
Dydd Sadwrn 21 Ebrill rhwng 11.00 am - 5.00 pm




Cwrs Cynganeddu gyda Mererid Hopwood a Ceri Wyn Jones  
Dydd Llun 23 - Dydd Gwener 27 Ebrill

Sgriptio gydag Aled Jones Williams  
Dydd Sadwrn 5 - Dydd Sul 6 Mai

Ffuglen ar gyfer Pobl Ifanc gyda Bethan Gwanas a Lleucu Roberts  
Dydd Sadwrn 28 - Dydd Sul 29 Gorffennaf

Am ragor o wybodaeth, ac i archebu eich lle, ewch i:  
[www.tynewydd.cymru](http://www.tynewydd.cymru)

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 0LW  
01766 522 811 / [tynewydd@llynyddiaethcymru.org](mailto:tynewydd@llynyddiaethcymru.org)




**Darllen, holi, herio**  
[www.pedwargwynt.cymru](http://www.pedwargwynt.cymru)

Hoffech chi weld eich hysbyseb chi  
yn y rhifyn nesaf?

Cysylltwch:

[golygyddion.ystamp@gmail.com](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com)

## CYHOEDDIADAU' R STAMP




HEDFAN | *iestyn tyne*


Mehefin 2018



Cyfrolau  
Cryno  
Carreg Gwalch



GWASG  
CARREG GWALCH  
[www.carreg-gwalch.cymru](http://www.carreg-gwalch.cymru)



£4.00

Argraffwyd gan Y Lolfa  
Celf y clawr: Bethan Scorey